# Ein Bro

Newyddion

Ysgol Bro Hyddgen

News










Haf 2017 / Summer 2017

# 2 Gair gan y Pennaeth

Annwyl Riant/Ofalwr

Hoffwn yn gyntaf ddiolch i chi am eich cefnogaeth yn ystod blwyddyn brysur iawn i bawb rhwng ymweliad ESTYN ddiwedd mis Chwefror yn ogystal â threfniadau ar gyfer adeiladu ysgol newydd ar y gweill.

Ar y campws cynradd hoffwn ddymuno'r gorau i nifer o staff sydd yn ein gadael yr haf hwn. Mae Mrs Anita Schwartz a Mrs Eleri Lewis yn symud i weithio i Fwrdd Iechyd Powys. Hoffwn ddiolch yn fawr i'r ddwy am eu gofal dros blant yr Heulfan yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae Mrs Siân Evans a Mrs Alwena Price yn gadael ar ôl 18 mlynedd o wasanaeth diflino i'r ysgol, Siân i fynd i weithio fel Swyddog Cymraeg i Blant Meithrin Meirionnydd ac Alwena yn ymddeol ac yn cymryd hoe haeddiannol iawn. Er mai am gyfnod gymharol fyr y bu Miss Mary Griffiths yn gweithio yn yr ysgol rydym yn ddiolchgar iawn iddi am ei gwaith arbennig a'i gofal o'r plant ym Mlwyddyn 1 ac rydym yn dymuno'n dda iddi hi yn ei swydd newydd yn Ysgol Meifod.

Ar y campws uwchradd rydym yn ffarwelio gyda Mrs Nikki Taylor a Miss Kelly Fleming. Bydd Nikki yn dilyn ei diddordebau gyda'r fyddin a bydd Kelly yn dechrau swydd newydd yn Ysgol Uwchradd Pontypridd. Diolch yn fawr a dymuniadau gorau i bawb.

Ym mis Medi byddwn yn croesawu Miss Eleri Wyn i'r adran Addysg Gorfforol a Miss Rhiannon Law i'r Uned Arbennig. Penodwyd Mrs Carol Lewis a Mrs Julie Price i rannu cyfrifoldeb y swydd cymhorthydd i'r uned a dymunwn yn dda iawn iddyn nhw gyda'u cyfrifoldebau newydd.

Edrychwn ymlaen at groesawu Finley, Hattie, Cadell a Geraint i'r Dosbarth Derbyn ym mis Medi a hefyd ddisgyblion Blwyddyn 7 newydd i'r Campws Uwchradd. Bydd criw mawr hefyd yn ymuno â ni yn y Chweched Dosbarth

Caiff y canlyniadau Safon Uwch eu cyhoeddi ddydd Iau 17 Awst; TGAU ddydd Iau 24 Awst a bydd yr ysgol yn ail agor i blant ddydd Llun 4 Medi.

Gobeithio y cewch haf hapus ac y daw pawb yn ôl i'r ysgol yn ddiogel.

Yn ddiffuant

**Dafydd MB Jones**
Pennaeth

# Letter from the headteacher

Dear Parents / Carers

I would like to take this opportunity to thank you for your support during a very busy year for everyone, between ESTYN's visit at the beginning of February and the preparations for the new building which are now well under way.

I would like to wish all the best to the staff who are leaving the Primary Campus this summer. Mrs Anita Schwartz and Mrs Eleri Lewis are both moving to work for Powys NHS. I would like to thank the two of them for the care and guidance they have provided to the children in the Sunshine room during the past years. Mrs Siân Evans and Mrs Alwena Price are leaving after 18 years of tireless service to the school; Siân is going to work as Welsh language officer for Meirionydd Mudiad Ysgolion Meithrin and Alwena is retiring and taking a well-deserved rest. Miss Mary Griffiths has only been at the school for a year, but in that short time she has made a significant impact and we are very grateful to her for work with the Year 1 children in her care. We wish her all the best in her new post at Ysgol Meifod.

On the Secondary Campus we bid farewell to Mrs Nikki Taylor & Miss Kelly Fleming. Nikki will follow her interests with the Army and Kelly will start her new job at Ysgol Uwchradd Pontypridd. A huge thank you to the two of them and best wishes for the future.

In September we will be welcoming Miss Eleri Wyn to the PE department and Miss Rhiannon Law to the Specialist Unit. Mrs Carol Lewis & Mrs Julie Price have been appointed to share the responsibilities of the post of teaching assistant in the Specialist Centre and we wish them all the best with their new responsibilities.

We look forward to welcoming Finley, Hattie, Cadell and Geraint to the Reception Class in September and the new Year 7 pupils to the Secondary Campus. A large number of students will also be returning to the Sixth Form.

A Level results will be shared on Thursday 17 August; GCSE results on Thursday 24 August and school will reopen on Monday 4 September.

Wishing you a happy summer holiday and a safe return in September.

Yours sincerely

**Dafydd MB Jones**
Headteacher

# Radio Bro Hyddgen yn 5 oed!

Eleni, mae Radio Bro Hyddgen yn 5 oed!

This year we celebrate Radio Bro Hyddgen's 5th Birthday!



Yn yr adran Gymraeg, cafodd disgyblion Blwyddyn 8 gyfle i arddangos eu sgiliau perfformio drwy greu a recordio sioe ar gyfer y radio ysgol. Mwynhaodd y disgyblion gydweithio mewn grwpiau a dewis caneuon poblogaidd i'w chwarae ar y coridorau yn ystod amser egwyl a chinio. Da iawn chi DJ's y dyfodol!

*In their Welsh lessons, pupils took up the challenge of writing a script for the school radio. They enjoyed working in groups and creating an entertainment show to be played during break and lunch times. Well done to our future DJ's!*

# Clwb Gwyddoniaeth / Science Club



# Dyddiadau Pwysig / Important Dates

| | |
|---|---|
| Diwrnod di-ddisgybl/Non Pupil Day | 1.9.17 |
| Diwrnod cynta'r tymor/First day of term | 4.9.17 |
| Hanner tymor / Half term | 30.10.17 – 3.11.17 |
| Diwrnod cyntaf yn ôl yn yr ysgol ar ôl hanner tymor/ First day back after half term | 6.11.17 |
| Arholiadau Allanol TGAU Mathemateg, Saesneg a Chymraeg/GCSE External Exams Maths, English and Welsh | 6.11.17 – 14.11.17 |
| Diwrnod di-ddisgybl/Non pupil day | 17.11.17 |
| Diwrnod olaf y tymor / Last day of term | 22.12.17 |
| Diwrnod di-ddisgybl/Non pupil day | 8.1.18 |
| First day of term / Diwrnod cynta'r tymor | 9.1.18 |

# Gala Nofio Powys / Powys Swimming Gala

Llongyfarchiadau i'r canlynol am gystadlu yn y rowndiau gala nofio Powys eleni. Beca Jones, Emma Fletcher, Iestyn Evans, Ioan Reading, Morus Morgan, Enlli Phillips, Lara Halfpenny, Louis Roberts, Finlay Thapa, Dyfed Childs, Eowyn Vaughan, Amelia Garrod, Jessica Fletcher a Betsan Behnan. Llongyfarchiadau arbennig i Finlay Thapa a Ioan Reading am gyrraedd y rownd derfynol - Finlay yn ennill medal aur a Ioan y fedal arian. Da iawn chi fechgyn.

*Congratulations to all the following pupils who took part in the Powys Swimming Gala rounds this term - Beca Jones, Emma Fletcher, Iestyn Evans, Ioan Reading, Morus Morgan, Enlli Phillips, Lara Halfpenny, Louis Roberts, Finlay Thapa, Dyfed Childs, Eowyn Vaughan, Amelia Garrod, Jessica Fletcher and Betsan Behnan. Huge congratulations to Finaly Thapa and Ioan Reading for reaching the finals, with Finlay winning a gold medal and Ioan winning a silver medal. Well done boys!*



# 6 Presenoldeb / Attendance

Mae Llywodraeth Cymru wedi gorchymyn i bob awdurdod lleol weithredu Hysbysiadau Cosb o dan y Rheoliadau Addysg (Hysbysiad Cosb) (Cymru) 2013.

Mae'r Awdurdod yn credu bod unrhyw absenoldeb o'r ysgol, am ba bynnag reswm, yn niweidiol i gyfleoedd bywyd hirdymor y plentyn, felly dylid osgoi hyn os yw yn bosibl o gwbl.

Mae Hysbysiad Cosb yn ddewis yn hytrach nag erlyn gyda'r nod o geisio sicrhau gwelliant ym mhresenoldeb y plentyn yn yr ysgol.

**Apelio yn erbyn Hysbysiad Cosb**

Nid oes hawl statudol i apelio o dan y Rheoliadau, ond lle mae rhiant yn herio rhoi Hysbysiad Cosb gallai gysylltu â'r Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg.

**Pwy fydd yn derbyn Hysbysiad Cosb?**

Bydd hysbysiad yn cael ei anfon at bob rhiant mewn perthynas â phob plentyn.

O dan adran 576 o Ddeddf Addysg 1996 mae “rhiant” yn golygu'r person â chyfrifoldeb rhiant a/neu'r rhai sy'n gyfrifol am ofalu am y plentyn o ddydd i ddydd beth bynnag yw eu perthynas gyda'r plentyn.

PAM Y DYLAI FY MHLENTYN FYND I'R YSGOL BOB DYDD

| | | |
|---|---|---|
| 100% o bresenoldeb | 0 o ddyddiau o ddysgu wedi'u colli | Y cyfle gorau o lwyddo! |
| 95% o bresenoldeb | 2 wythnos o ddysgu wedi'u colli | Bydd presenoldeb gwael yn effeithio ar y dysgu. |
| 90% o bresenoldeb | 4 wythnos o ddysgu wedi'u colli | |
| 85% o bresenoldeb | 5 ½ wythnos o ddysgu wedi'u colli | Mae presenoldeb gwael iawn yn cael effaith sylweddol ar y dysgu. Rydych mewn perygl o gael eich erlyn. |
| 80% o bresenoldeb | O leiaf 7½ wythnos o ddysgu wedi'u colli | |

**Gallai hysbysiad cosb gael ei roi**
Pan fydd disgybl wedi colli o leiaf 10 sesiwn neu bum diwrnod ysgol oherwydd absenoldeb heb awdurdod yn ystod y tymor cyfredol, ac sy'n dod â phresenoldeb cyffredinol y disgybl i o dan 90% yn y flwyddyn ysgol hyd yn hyn.
Pan gollir 10 sesiwn neu 5 diwrnod ysgol oherwydd gwyliau yn ystod y tymor ac os yw'r absenoldeb yn mynd â phresenoldeb y disgybl o dan 90% yn y flwyddyn ysgol gyfredol hyd yn hyn.
Pan fydd 10 sesiwn o fod yn hwyr yn gyson ar ôl i'r gofrestr gau mewn tymor gan ddod â'r presenoldeb o dan 90% yn ystod y flwyddyn ysgol gyfredol hyd yn hyn neu gyfuniad o'r uchod.

**Cost Hysbysiad Cosb**
Os bydd angen hysbysiad, bydd y rhiant yn cael rhybudd o 15 diwrnod i roi unrhyw dystiolaeth y dymuna ei chyflwyno i'r ysgol i ddadlau pam na ddylai'r hysbysiad gael ei roi. Mater i'r ysgol fydd penderfynu a ddylai'r dystiolaeth gael ei derbyn.
Nid oes cyfyngiadau ar nifer y rhybuddion ffurfiol y gellir eu rhoi.

**Bydd y ddirwy yn:**

- £60 os caiff ei thalu o fewn 28 diwrnod, a allai godi i -
- £120 os caiff ei thalu ar ôl 28 diwrnod, ond o fewn 42 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad cychwynnol.

Os na fydd yr Hysbysiad Cosb yn cael ei dalu, yna bydd yr Awdurdod Lleol (ALl) yn ystyried erlyn am y drosedd wreiddiol, sef 'methu â sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol' o dan adran 444(A) Deddf Addysg 1996

**Cymorth gyda Phresenoldeb yn yr Ysgol**
Cofiwch, os oes rhesymau pam fod eich plentyn yn colli ysgol, rhowch wybod i'r ysgol.

Os nad yw eich plentyn yn yr ysgol, yna siaradwch â'r ysgol cyn gynted â phosibl ar ddiwrnod cyntaf ei absenoldeb.
Disgwylir i'ch plentyn fod yn yr ysgol am 190 diwrnod yn ystod blwyddyn academaidd gyda 175 o ddyddiau i ffwrdd oherwydd penwythnosau a gwyliau ysgol.

**PWY ALLWCH CHI EU FFONIO**
Gellir cael rhagor o wybodaeth am ysgol yn rhoi Hysbysiadau Cosb gan ysgol eich plentyn neu gan Wasanaeth Cynhwysiant Addysg yr Awdurdod Lleol

# Presenoldeb / Attendance

Welsh Government have instructed all local authorities to implement Penalty Charge Notices under the Welsh Government Education (Penalty Notice) (Wales) Regulations 2013

The ERW consortium believe that any absence from school, for whatever reason, is detrimental to a child's long term life opportunities, so should be avoided if at all possible.

A Penalty Charge Notice is issued as am alternative to prosecution . The aim of which is to promote the improvement in attendance at school of the child.

**Appealing against a Penalty Charge Notice.**

There is no statutory right of appeal against a Penalty Charge Notice under the Regulations, though where a parent contests the issuing of a Penalty Charge Notice they can contact the Education Welfare Service.

**Who will receive a Penalty Notice?**

A Penalty Charge Notice will be issued to each parent, in respect of each child who is absent from school without good reason. Section 576 of the Education Act 1996 defines a 'parent' to include persons who are not parents but who have parental responsibility or care of the child

**WHY SHOULD MY CHILD ATTEND SCHOOL EVERY DAY**

| | | |
|---|---|---|
| 100% attendance | 0 days learning missed | Best chance of success! |
| 95% attendance | 2 weeks of learning missed | Poor attendance will impact on learning. |
| 90% attendance | 4 weeks of learning missed | |
| 85% attendance | 5 ½ weeks of learning missed | Very poor attendance has a significant impact on learning. You are at risk of prosecution. |
| 80% attendance | At least 7 ½ weeks of learning missed. | |

**A Penalty Charge Notice may be issued:**
When a pupil has a minimum of 10 sessions or five school days lost due to unauthorised absences
during the current term that brings the pupils' overall attendance at school below 90% in the school year to date.

10 sessions, or 5 school days, are lost due to holidays in term-time if the absence takes the pupils school attendance to below 90% in the current school year to date.

10 sessions of persistent lateness after the register has closed in a term bringing the pupils school attendance to below 90% in the current school year to date.

**The cost of a Penalty Charge Notice.**

If a notice is required the parent will have a warning of 15 days to provide any evidence they may wish to present to the school to argue why the notice should not be issued. It will be for the school to determine if the evidence is accepted.
There are no limit to the number of formal warnings that can be issued.

If the school attendance of the child does not improve then the penalty will be:

The Penalty Charge Notice is for the amount of £120 though this will be subject to a discounted amount £60 should this amount be paid within 42 days.

If the Penalty Charge Notice is not paid at all then the Local Authority (LA) will consider prosecution for the original offence, which is 'failure to ensure regular attendance at school' under sections 444 (1) or 444(1A) of the Education Act 1996.

**Support with School Attendance.**
Please remember that if there are reasons why your child is missing school then keep the school informed.

If your child is off school then speak to the school as early as possible on the first day of their absence.

Your child is expected to be in school for 190 days an
academic year with 175 days off due to weekends and school holidays.

**WHO CAN YOU CALL**
Further information on the issuing of Penalty Notices can be obtained from your child's school or from the Education Welfare Service department of the Local Authority

# Cwrs Awyr Agored - Glan Llyn





Aeth y criw Awyr Agored BTEC am antur i Lanllyn yn ddiweddar i gwblhau rhan o 'n cwrs BTEC. Roeddwn yn gwybod fod y tro yma yn wahanol oherwydd bod y gweithgareddau ar y tir er mwyn i ni gael hwyl a chwblhau amrywiaeth o weithgareddau. Y peth anoddacfo'r daith yma i Lanllyn oedd trio mynd ar hyd y cwrs Rhaffau uchaf gyda fy nghoesau yn ysgwyd cyn mynd 'mlaen. Ar ôl y profiad ofnus hwn, roedd y gweithgareddau a gawson yng Nglanllyn wedi bod yn llawn o hwyl a sbri! Diolch Glanllyn am adael i griw Bro Hyddgen ddod atoch chi unwaith eto!

Gan Steffanie Morris

*Going to Glan Llyn has allowed me to participate in sporting activities that I would not have participate d in if it was not for the experience. The experience has allowed me to overcome my fear of heights by participating in activities such as high ropes and rock climbing in Caernarfon's rock climbing centre. I have discovered new hobbies which include paddle boarding and mountain climbing. These are examples of activities that I would not have been able to experience on my own due to high financial costs. Therefore, Glan Llyn is a great opportunity to get involved in sporting activities. Not only is it a fantastic opportunity to try new activities but is an excellent chance to meet new people of different years within the sixth form. My speaking and understanding of Welsh has improved too and I look forward to my next visit to Glan Llyn with the school: it is guaranteed that the experience will be an enjoyable one. By Jordan Hughes*

# Hyfforddiant Cymorth Cyntaf / First Aid Training

Unwaith eto eleni, cafodd disgyblion Blwyddyn 5 weithdy Cymorth Cyntaf. Nod y gweithdy yw i roi sgiliau angenrheidiol i'r disgyblion a'u hyfforddi i wybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Yn ystod y gweithdy, rhannwyd gwybodaeth a chafodd y disgyblion gyfle i ymarfer sgiliau achub bywyd. Diolch i PC Tessa Williams am gydlynnu ac i PC Caz Monks am gyflwyno'r hyfforddiant buddiol hwn.

*Once again this year Year 5 pupils have received First Aid training. The purpose of the training is to give the pupils important skills and to inform them of steps to take in an emergency. During the workshop, the pupils had an opportunity to practise life saving skills. Thank you to PC Tessa Williams and PC Caz Monks for organising and leading this very important training.*



# Mabolgampau'r Adran Iau / Junior Department Sports Day

Cynhaliwyd mabolgampau'r Adran Iau ar brynhawn Iau 13 Gorffennaf. Yn ôl yr arfer, bu cystadlu brwd ymhlith y disgyblion a phawb yn cefnogi ei gilydd.

*The Junior Department's sports day was held on Thursday 13 July. All pupils participated well and showed excellent sportsmanship*



Cynhaliwyd mabolgampau'r Adran Iau ar brynhawn Iau 13 Gorffennaf. Yn ôl yr arfer, bu cystadlu brwd ymhlith y disgyblion a phawb yn cefnogi ei gilydd. Arweiniwyd y timau yn fedrus gan y capteiniaid sef Ioan a Hanna (Dulas), Morus ac Elen (Dyfi), Emma ac Alexis (Crewi) ac Ellen ac Enlli (Llyfnant). Cafwyd diweddglo cyffrous i'r prynhawn, wrth i dîm Llyfnant ddod yn fuddugol gyda 100 o bwyntiau, a chyflwynwyd tarian y mabolgampau i'r capteiniaid, Ellen ac Enlli gan Mrs Eleri Lewis a Mrs Anita Schwartz. Diolch i bob un am gydweithio i gynnal mabolgampau llwyddiannus arall.

The Junior Department's sports day was held on Thursday 13 July. All pupils participated well and showed excellent sportsmanship. The captains, Ioan & Hanna (Dulas), Morus & Elen (Dyfi), Emma & Alexis (Crewi) and Ellen & Enlli (Llyfnant) led the teams efficiently throughout the afternoon. After an exciting conclusion, it was announced that Llyfnant was the winning team with 100 points. Mrs Eleri Lewis and Mrs Anita Schwartz presented the Sports Day Trophy to Ellen and Enlli, before the winning team ran a lap of honour around the field!





# Diwrnod Trosglwyddo Blwyddyn 6








Braf oedd cael croesawu blwyddyn 6 i'r campws uwchradd ar gyfer yr wythnos drosglwyddo'r tymor hwn. Cafwyd blas ar amrywiaeth o wahanol bynciau sydd gan y campws uwchradd i'w gynnig o weithgareddau 5x60, i fore Ffrengig, diwrnod Technoleg a llawer mwy. Roedd yr wythnos yn hynod lwyddiannus gan fod pawb wedi creu ffrindiau newydd sydd yn y flwyddyn ac wedi dod yn fwy cyfarwydd â'r campws uwchradd. Rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu chi i gyd yma ym mis Medi!!

*It was very nice to welcome year 6 for their secondary transition week this term. They enjoyed a whole range of subjects that the secondary campus had to offer from 5x60 activities, to a French morning, a Technology day and many more. The week was a success with all of the year 6 students making new friends in their year and getting to know the school better. We look forward to welcoming you all here in September!!*

# Gŵyl Haf Merched y Wawr



Merched y Wawr yn dathlu 50 mlynedd ers ei sefydlu.

This year the “Merched y Wawr” celebrated 50 years since it was established.




Mae Merched y Wawr yn ddiolchgar iawn i ysgol Bro Hyddgen am y cydweithio hapus iawn dros y blynyddoedd diwethaf. “Mae ein Gŵyl Haf wedi ehangu a datblygu llawer a bellach mae yn cynnwys Cystadlaethau Chwaraeon Cenedlaethol, Siaradwyr Gwadd, Cyfarfod Blynyddol, Cystadlaethau Celf a Choginio, Stondinnau amrywiol, Cystadlaethau llenyddol ac adloniant, Seremoni arbennig i longyfarch ein dysgwyr disglair a nifer fawr o elfennau eraill” meddai'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol.

“Eleni fe welwyd Dathliadau arbennig gyda'r Gampfa yn cael ei thrawsnewid yn Oriel Gelf ac Elin Jones A.C. Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol yn Dadorchuddio y Paneli Dathlu'r Aur.

Wedyn cafwyd araith gofiadwy gan Alun Davies A.C. Gweinidog Cymraeg a Dysgu Gydol Oes a bu cwmni teledu Orchard yn ffilmio gydol y dydd gyda Hannah a Jess yn ganolog i'r cyfan.

Roedd yna fwrlwm yn y Ffreutur lle mae staff a rhieni yr ysgol yn paratoi gwledd ar gyfer yr ymwelwyr ac eleni fe gafodd gwahoddedigion ginio yn y Ganolfan Ieuenctid. Diolch hefyd i Cerys Hickman am ein diddanu gyda'i chyflwyniad gerddorol ar y delyn.

Roedd yr 20fed o Fai yn sicr yn ddiwrnod y byddwn yn cofio am amser hir gyda pob dim a ddigwyddodd yn gofnod pwysig o hanner canrif o weithgareddau ac aelodau o Gymru gyfan wedi dod ynghyd. Roedd y swyddogion Treftadaeth hefyd wedi cael cyfle i gyrraedd pwynt pwysig yn y prosiect ac fe wnaeth cymaint o aelodau ddod yno i rannu eu hatgofion.

Diolch yn fawr i holl staff a swyddogion Ysgol Bro Hyddgen am gydweithio yn hapus iawn gyda Merched y Wawr ac i sicrhau llwyddiant ein Gwyl Haf yn flynyddol.”

Tegwen Morris

Cyfarwyddwraig Cenedlaethol, Merched y Wawr

# Disgyblion Cerddorol







Yn ogystal â chystadlu yn llwyddiannus yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, mae nifer o ddisgyblion cerddorol Ysgol Bro Hyddgen wedi bod yn brysur yn cynrychioli'r ysgol mewn cyngherddau lu. Fe welwch yn y lluniau gerddorion amrywiol yr ysgol - yn gerddorion roc, clasurol a thraddodiadol yn perfformio yn offerynnol ac yn lleisiol. Ymhlith y perfformiadau amlycaf roedd cyngerdd yn y Tabernacl, cyngerdd Disgyblion Hŷn yn neuadd yr ysgol a pherfformiadau yng nghyngerdd Aberopera yn Eglwys Machynlleth. Fel rhan o hyn, roedd disgyblion Bro Hyddgen yn aelodau o ensemblau y Chwe Sir - Gruffydd Behnan yn aelod o'r Big Band a Malachi Taylor yn aelod o'r Band Pres. Ym mis Awst eleni fe fydd Cerys Hughes a Malachi Taylor yn perfformio fel aelodau o'r Band Pres Cenedlaethol mewn cyngerdd ym Mhorthcawl. Pob lwc iddynt! Diolch a llongyfarchiadau mawr i'r holl ddisgyblion gweithgar.



# Musical Pupils









*As well as successfully competing at the Urdd National Eisteddfod, many of our musical pupils have been busy performing in various concerts. The pictures show some of our singers and instrumentalists performing in a range of musical genres - from rock to classical to traditional. Performances include: a concert at the Tabernacl, senior pupils' concert at Ysgol Bro Hyddgen and performances at St Michael's Church with Aberopera. Pupils have also performed as members of the Six Counties Ensembles - Gruffydd Behnan with the BIg Band and Malachi Taylor with the Brass Band. In August, look out for Cerys Hughes and Malachi Taylor who will be performing with the National Brass Band. We wish them the best of luck, and extend our gratitude and congratulations to all the hard working pupils.*





# Dawns Blwyddyn 11



Nos Iau, Mehefn 22, cafwyd prom hynod lwyddiannus ar y campws uwchradd wrth i ni fel ysgol ffarwelio gyda Blwyddyn 11 am y tro olaf. Roedd y disgyblion oll wedi gwisgo'n smart ac ambell un yn cyrraedd yr ysgol mewn steil! Cafwyd gwledd yn y neuadd gan gofio am yr amseroedd da a gafwyd yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Cyflwynwyd gwobrau i'r disgyblion hynny am eu hamrywiol ymdrechion hefyd.

Diolch yn fawr i bawb am eu gwaith trefnu a dymuniadau gorau i flwyddyn 11 yn y dyfodol gan edrych ymlaen at groesawu nifer helaeth ohonoch yn ôl i'r chweched dosbarth ym mis Medi.







# Year 11 Ball





*Thursday evening June 22nd the school held the annual Year 11 Prom and once agin it was a resounding success. We said farewell to our Year 11 for the last time. All the pupils were dressed to impress and one or two arrived in style! We had a wonderful time in the school hall while remembering the good memories created over the past five years. Awards were given out during the evening for the pupil's efforts too.*

*Thank you to everyone who contributed making this event incredibly successful. We wish the best to year 11 in the future and we look forward in welcoming the majority back into the sixth form in September.*







# Dawns Blwyddyn 11











# Year 11 Ball













# Gwefannau ac Apps defnyddiol ar gyfer datblygu rhifedd

Er mwyn cynnig rhagor o gymorth i ddatlygu sgiliau rhifedd ein disgyblion,  rydym yn eu hannog i wneud defnydd o rifedd y tu allan i'r ysgol. Dyma wefannau ac Apps rhifedd defnyddiol y gall disgyblion eu defnyddio i ddatblygu eu sgiliau rhif ynghyd â'r hyn sydd yn digwydd yn yr ysgol.




## Bedtime Math

Mae'r cwestiynau ar *bedtime math* yn cael eu gofyn ar ffurf ysgrifenedig a rhaid i'r plentyn ddehongli'r cwestiwn a darganfod y swm sydd angen i'w ateb. Mae'r cwestiynau hefyd wedi eu gwahaniaethu ar gyfer disgyblion gallu isel, canolig a disgyblion gallu uchel. Mae'r cwestiynau yn newid yn ddyddiol.

## Brainist Math Games

Mae'r wefan *Brainist Math Games* yn wefan wych ar gyfer datblygu mathemateg pen disgyblion. Mae'n cynnwys cwestiynau lluosi, rhannu adio a thynnu. Nod y gêm yw ateb cyfres o gwestiynau mewn cyn lleied o amser ag sy'n bosib.




Gwefan sydd yn cynnwys llawer o adnoddau adolygu TGAU Mathemateg gan gynnwys *Who wants to be a Millionaire*, gêm a fydd yn ennyn diddordeb plant ac yn datblygu eu sgiliau rhif.







## Motion Math

App defnyddiol ar gyfer datblygu rhif sydd yn cynnwys nifer o gemau gwahanol sydd yn hwyl i blant. Mae'r App gyda ffocws ar ddatblygu ffracsiynau ac mae'n dweud bod defnyddio'r App yma yn gwella ffracsiynau plentyn 15% ac agwedd plant tuag at fathemateg o 10%. Mae'r App yma yn ddefnyddiol i blant 2016 gan fwyafrif ohonynt fynediad i wahanol ffurf o'u defnyddio e.e. ffôn symudol, i-pods ar i-pads a.y.b.

# Useful websites and Apps for developing numeracy skills

*To further develop the numeracy skills of our pupils, we encourage them to make use of numeracy outside school hours. These are some useful Numeracy websites and Apps that pupils can use to develop their numeracy skills along with what is going on at school.*




***Bedtime Math***

*The questions on bedtime math are asked in a written format which requires the pupil to interpret the question and work out the sum needed to answer the question. The questions are differentiated for pupils of lower, medium and high ability learners. The question also changes daily.*




***Brainist Math Games***

*The 'Brainist Math Games' is an excellent website for developing mental maths. It's includes multiplications, division, addition and subtracting questions. The objective of the game it to answer a series of questions as quickly as possible.*

*A website that includes a number of revision resources for GCSE Mathematics including 'Who Wants to be a Millionaire ' a game that will interest children and develop their numeracy skills.*







***Motion Math***

*A useful App for developing numeracy skills as it includes a number of games that are fun for children. The App is focused on developing fractions; they claim that the use of this App improves their fractions by 15% and children's attitude towards mathematics by 10%. Apps are useful for children of 2016 as many of them have access to different ways of using Apps such as mobile phones, i-pods and i-pads etc.*

# Mabolgampau Campws Uwchradd

*Cafodd mabolgampau'r ysgol eu cynnal ddydd Mercher 21ain o Fehefin eleni. Mae Mabolgampau Bro Hyddgen yn ddiwrnod bythgofiadwy i nifer o fyfyrwyr yr ysgol a cafwyd diwrnod campus eto gyda Llywelyn (Pencampwyr 2016), Glyndŵr a Dewi yn brwydro am y darian!*

*Cafwyd dechrau da i'r diwrnod, roedd nifer o'r myfyrwyr yn pryderu am y gystadleuaeth, ond fe gododd yr haul, ac fe gafwyd perfformiadau penigamp ar y maes ac ar y trac.*
*Mae hi bob tro yn braf cael dathlu bod record newydd yn cael ei osod gan y disgyblion, ac eleni torrwyd 11 record gan y canlynol:*

- 75m Merched bl.8 – Mared Griffiths: 9.44
- 75 m Bechgyn Bl.7 – Gwern Phillips: 9.52
- 75 m Bechgyn bl.8 – Zach Rose: 9.64
- 75 m Bechgyn bl.9 – Robbie S: 9.22
- 75 m Bechgyn bl.10 – Craig Debell: 8.38
- 100 m Bechgyn bl.10 – Craig Debell: 12.26
- 1500m Bechgyn bl.10 – Iwan Jones – 05:23.2
- Naid Driphlig Merched bl.10 – Lauren Watts – 8.91
- Ras Gyfnewid Merched bl.7 – Glyndŵr: 1.11
- Ras Gyfnewid Bechgyn bl.7 – Glyndŵr 1.03

*Y flwyddyn yma, roedd hi'n ras gyffrous ac agos, ond pwy aeth â'r darian adref?!*
*Wel.... Llywelyn ddaeth yn 3ydd gyda 645 o bwyntiau. Yn 2il gyda 719 o bwyntiau oedd Glyndŵr, ond yn cipio'r darian yn 2017 gyda 727 o bwyntiau oedd Dewi!*

*Ysgol Bro Hyddgen's sports day is always something that every pupil will remember forever. We had a action packed day with Llywelyn (winner of 2016), Glyndwr and Dewi fighting once again for the shield.*

*We had a very good start with dry and warm weather for the majority of the day. There were brilliant performances once again on the field and the track. It is always enjoyable to break a new record and this year 11 records were broken by the following:*

- 75m Girls Yr.8 – Mared Griffiths: 9.44
- 75 m Boys Yr 7 – Gwern Phillips: 9.52
- 75 m Boys Yr 8 – Zach Rose: 9.64
- 75 m Boys Yr 9 – Robbie S: 9.22
- 75 m Boys Yr 10 – Craig Debell: 8.38
- 100 m Boys Yr 10 – Craig Debell: 12.26
- 1500m Boys Yr 10 – Iwan Jones – 05:23.2
- Triple Jump Girls Yr 10– Lauren Watts – 8.91
- Girls Relay Yr 7 – Glyndwr: 1.11
- Boys Relay Yr 7 – Glyndwr 1.03

*This year it was a close race, but who took the shield home?*
*Well……. in 3rd place with 645 points was Llywelyn. 2nd with 719 points was Glyndwr, but winning the shield for the 2017 sports day with 727 points was Dewi!*

# Sports Day Secondary Campus











# Mabolgampau Campws Uwchradd

Yn flynyddol bellach rydym hefyd yn gwobrwyo disgyblion sydd wedi serennu o fewn eu blwyddyn ysgol. Eleni daeth yr unigolion canlynol i'r brig ac y maent oll yn haeddu clod:

Bl 7 : Gwern (Dylan o fewn pwynt) a Llio Evans

Bl8: Joe Williamson a Cerys Powell

Bl9:Hefin Pugh a Catrin Pughe

Bl 10: Lauren Watts a Craig Debell (Kiran yn agos)

We also reward pupils annually for making an impression throughout the school year. This year was no exception with many individuals  coming to the fore who should be praised for their success:

Year 7:  Gwern (Dylan within a few points) and Llio Evans

Year 8: Joe Williamson and Cerys Powell

Year 9: Hefin Pugh and Catrin Pughe

Year 10: Lauren Watts and Craig Debell (Kiran was very close)









# Sports Day Secondary Campus













# Ffarwelio gyda Bl. 11 a Bl. 13



Roedd hi'n braf iawn dathlu a hel atgofion yng nghwmni myfyrwyr Bro Hyddgen sy'n ffarwelio â ni am y tro olaf eleni. Mae nifer helaeth o flwyddyn 13 yn gobeithio camu mlaen i addysg bellach mewn prifysgolion ar hyd a lled y wlad gyda nifer fawr o flwyddyn 11 yn dychwelyd i'r chweched dosbarth ym mis Medi. Dymunwn yn dda iawn i'r disgyblion hynny sy'n ein gadael ni am y tro olaf gan ddymuno pob llwyddiant i chi gyd yn y dyfodol. Cofiwch alw heibio o dro i dro er mwyn i ni glywed eich hanesion chi.

*It is always enjoyable to reflect on time spent at Bro Hyddgen and recently we bid farewell to many students who are leaving us this summer. Many Year 13 students are venturing onwards to study at higher education universities across the UK and many year 11 students are returning to the sixth form. We wish all our students every success for the future in what ever endeavour you follow.*

Dymunwn yn dda iawn i'r disgyblion hynny sy'n ein gadael ni am y tro olaf gan ddymuno pob llwyddiant i chi gyd yn y dyfodol.

*We wish all our students every success for the future in which ever endeavours you follow.*



# Ymweld â Chors Dyfi / A visit to Cors Dyfi

Bu disgyblion dosbarth 5/6H a 5/6J yn ymweld â Chors Dyfi'n ddiweddar.

*On Tuesday 23 May pupils in class 5/6J and 5/6H visited the Cors Dyfi Reserve.*



Ymweld â Chors Dyfi

Bu disgyblion dosbarth 5/6H a 5/6J yn ymweld â Chors Dyfi ddydd Mawrth, 23 Mai. Cyfle oedd hwn i gyfoethogi gwybodaeth a dealltwriaeth am gynefinoedd a gweld sut mae anifeiliaid yn addasu o fewn eu hamgylchedd. Dan arweiniad Kim Williams, tywyswyd y disgyblion at yr arsyllfa lle bu'r disgyblion yn gwylio Glesni (gwalch y pysgod) ar ei nyth a chafwyd cipolwg ar ddau o'r cywion bach oedd newydd ddeor. Dysgodd y disgyblion am sut mae'r gweilch yn mudo a sut mae Cors Dyfi yn gwarchod yr adar rhyfeddol hyn. Diolch i Kim a swyddogion Cors Dyfi am gynnal gweithdy gwerth chweil.

*A visit to Cors Dyfi*

*On Tuesday 23 May pupils in class 5/6J and 5/6H visited the Cors Dyfi Reserve. This educational visit was an excellent opportunity to develop the pupils' knowledge and understanding of the habitats in which the ospreys live and how they are adapted for their environment. Led by Kim Williams, the pupils visited the observatory, where they saw Glesni , the female osprey , sitting on her nest; her two newly hatched chicks were just visible. The pupils learnt about the migration of these incredible birds and how Cors Dyfi works to protect the ospreys. Thank you to Kim and all the volunteers at Cors Dyfi for such an interesting visit.*

# Daily Post School Awards



Am y trydydd tro'n olynnol, enwebwyd yr ysgol yn y gystadleuaeth Daily Post a hynny'n y categori 'Cyfathrebu'. Mae'r categori hwn yn amlygu dulliau effeithiol ysgolion i gyfathrebu gyda'r cartref a'r gymuned. Roedd hi'n braf iawn clywed canmmol unwaith eto i Ein Bro a gwefan yr ysgol.

*For the third time the school was successful in being shortlisted for the best communication award with our work with the school website and newspaper. Unfortunately, we were not successful in winning this year but thankful for the opportunity to show the good work the school does.*

# Race for Life

## Llwyddiant Race for Life




Ar y 23ain o Fehefin, llwyddodd merched Ysgol Bro Hyddgen redeg y ras Race for Life. Roedd y merched wedi gwisgo pinc gan redeg unai'n unigol neu mewn grwpiau. Roedd nifer o athrawon hefyd wedi cymryd rhan - Ms Currie, Mrs Evans, Miss Fleming a Bethan Edwards. Roedd y merched wedi codi dros £1,300 sy'n anhygoel i feddwl mai £500 oedd ein targed. Mae'r arian yn mynd at elusen Cancr. Da iawn i bawb wnaeth gyfranogi.

*On the 23rd of June, girls at Ysgol Bro Hyddgen ran 5km for the Race for Life. Pupils wore pink clothing and ran individually and as a group. Many members of staff also participated - Ms Currie, Mrs Evans, Miss Fleming and Bethan Edwards. Pupils managed to raise over £1,300 for Cancer Research which is excellent considering our school target was £500. Well done to all who took part.*



# Ffair Haf Campws Cynradd






Roedd yr haul yn tywynnu ar y Ffair Haf gynhaliwyd nos Fercher 12 Gorffennaf ar y Campws Cynradd. Rhwng y bownsio, y peintio, y taflu, y dyfalu, y bwyta a'r yfed, llwyddwyd i godi dros fil o bunnau i goffrau'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Caiff yr arian eu ddefnyddio i ddatblygu'r ardaloedd allanol yn y Cyfnod Sylfaen a hefyd i brynu offer chwarae newydd ar gyfer y ddwy iard, ynghyd ag adnewyddu stoc llyfrau darllen yr ysgol.

Arddangosodd rhai o blant Bl 5& 6 sgiliau menter ac entrepeneur addawol iawn ac at ei gilydd codwyd £220.50 ganddynt, gyda Hanna, Logan, Alis a Tallulah yn codi £54.35 ar eu stondin **Dyfalu'r Nifer Gywir o Fferins yn y Botel.**

Diolch i'r Swyddog chwaraeon yn y Gymuned, Johathan Roberts am ddod draw i gefnogi ac i drefnu gemau pêl-droed cystadleuol – roedd y plant wrth eu bodd! Diolch hefyd i Tracy am drefnu i'r frigad dân a'r ambiwlans arddangos eu hoffer.

Hoffai'r ysgol ddioch yn ddiffuant i'r pwyllgor, yn enwedig i Joanne, Suzanne ac Erin am eu cefnogaeth ddiflino drwy'r flwyddyn.

*The sun shone on a very successful Summer Fair held on the Primary Campus on Wednesday 12 July. Through bouncing, painting, throwing, guessing, eating, drinking and more, over £1000 was raised towards the PTA funds. The money will be used to develop the outside learning and playing areas; also to buy new books for the school.*

*Some children in Year 5 & 6 displayed promising entrepreneurial skills and between them raised £220.50. Hanna, Logan, Alis & Tallulah raised £54.35 on their **Guess How Many Sweets are in the Jar** stall.*

*The school would like to thank Jonathan Roberts, the Community Sports Development Officer for organising the football challenge – the children loved it! Also, a huge thank you to Tracy for organising for the Fire Brigade and Ambulance crew who displayed their kit.*

*Lastly, the school would like to extend its sincere thanks to the PTA committee, in particular Joanne, Suzanne & Erin, for their tireless support throughout the year.*





# Llwyddiant yn y Steddfod

<u>Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2017</u>

Bu hon yn flwyddyn lwyddiannus arall i'r ysgol wrth i nifer o ddisgyblion yr ysgol gyrraedd y brifwyl unwaith eto eleni a rhai hyd yn oed yn camu i'r prif lwyfan. Roedd hi'n braf iawn gweld cymaint o eitemau yn cyrraedd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni o'r campws cynradd a'r uwchradd a'r eitemau hynny'n amrywio o ganu i ddawnsio o lefaru i actio a phob un disgybl yn rhoi o'i orau.

- 3ydd – Deuawd Cerdd Dant Bl. 10 a dan 19: Tegan a Glain
- 3ydd – Grŵp Dawnsio Disgo Bl. 10 a dan 19: Fflach

Dymunwn fel ysgol longyfarch y disgyblion am eu hymdrechion yn yr adran Ddylunio a Thechnoleg hefyd wrth i nifer ohonynt ennill clod yn sirol am eu gwaith.

- 1af – Gwaith Creadigol 3D Bl. 7,8,9 (Unigol neu Grŵp): Branwen a Gwenfair
- 1af – Gwaith Creadigol 3D Tecstiliau Bl. 7,8,9: Gwenfair Haf Davies
- 2il— Argraffu CDT Bl 5 a 6: Gwenllian Mason

*<u>Urdd National Eisteddfod 2017</u>*

*This year was another successful year for our pupils in the Eisteddfod with some performing on the main stage. It was pleasing again this year to see so many items reaching the Urdd Eisteddfod in both the primary and secondary campus and those items ranging from singing, dancing, acting and every pupil giving their best effort.*

- *3rd - Folk duet Yr 10 under 19: Tegan and Glain*
- *3rd– Group Disco Dancing Yr 10 under 19: Flach*

*As a school, we would like to congratulate pupils in their efforts with the Design and Technology work with many of the pupils succeeding in achieving county commendation for their work.*

- *1st - Creative work 3D Yr 7,8,9 (individual or group): Branwen and Gwenfair*
- *1st - Creative work 3D Textiles Yr 7,8,9: Gwenfair Haf Davies*
- *2nd - Printing CDT Yr5 and 6: Gwenllian Mason*






# Llwyddiant yn y Steddfod











# 30 Wythnos Weithgareddau







Wythnos Weithgareddau Blynyddoedd 8 a 9 2017!

Yn ystod yr wythnos diwethaf, rydym wedi bod yn gwneud nifer fawr o weithgareddau gyda dysgwyr blynyddoedd 8 a 9.

Er bod y glaw wedi cael ychydig o effaith ar hwyliau yn ystod dydd Llun, hoffwn ddiolch i'r dysgwyr am eu brwdfrydedd yn ystod yr wythnos. Ddydd Llun roedd; taith gerdded, syrffio, ffotomarathon, beicio mynydd a garddio. Diolch hefyd i Elen Chick a CAMHS am eu sesiwn ABaCh am wydnwch.

Hoffwn ddiolch i'r nifer fawr o asiantaethau allanol sydd wedi gwirfoddoli i helpu yn YBH! Ar fore dydd Mawrth, cafwyd bore llwyddiannus iawn gyda gwirfoddolwyr o'r elusen 'Inspiring the Future' a oedd yn rhoi'r cyfle i blant ddysgu am brentisiaethau a gyrfaoedd gwahanol. Yna, cafodd blwyddyn 8 sesiynau Crucial Crew gyda Meic Cymru, CAIS, Scottish Power, Hafan Cymru, Calan, Diogelwch ffyrdd Powys, yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Chalonnau Cymru. Yn ogystal â hyn, aeth blwyddyn 9 i gwblhau gwaith maes ar brynhawn dydd Mawrth.

Ddydd Mercher, daeth yr haul allan! Aeth blwyddyn 9 ar daith gerdded a chafodd blwyddyn 8 sesiwn CPR gydag Elen Chick. Er bod y gweithgaredd saethyddiaeth wedi cael ei ganslo, cafwyd 'Gŵyl Hwyl' yn ei le – lle bu dysgwyr yn gwneud gwers o fabolgampau hen ffasiwn mewn timau. Yn ystod y diwrnod, cafwyd sesiynau Drymio gan Steffan Jones, Celf, Trin Gwallt a Harddwch gyda chyn ddisgybl – Alis Fleming a Rhaglennu cyfrifiadurol.

Nesaf, ddydd Iau, cafwyd bore o weithgareddau 5x60 yn cael eu trefnu gan Mr G Jones a Miss Fleming. Cafodd y dysgwyr y siawns i chwarae 'Softball', Rownderi, Pêl-droed a Thenis. Uchafbwynt y bore oedd pan gafodd Miss Fleming ei dal allan gan Tom Jones yn ystod y rownderi! Brynhawn dydd Iau, cafodd y dysgwyr y siawns i brynu cynhyrchion wythnos menter blwyddyn 10 megis breichledi, cacennau a chwrs antur!

Fore dydd Gwener aeth blwyddyn 9 ar daith i ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Yn ystod y dydd, roedd y gweithgareddau canlynol; gemau bwrdd a gwyddbwyll, Bingo gyda'r henoed a phobi. Ac yn olaf! Daeth prifysgol Aberystwyth i mewn i'r ysgol i gynnal sesiynau am y gofod a roboteg!

Rwyf yn mawr obeithio i bawb fwynhau'r wythnos!

Miss Good

# Activities Week







*Activities week Years 8 and 9 2017!*

*Throughout the last week, we've been doing a number of different activities with pupils in years 8 and 9.*

*The rain on Monday didn't dampen the spirits of pupils, and I'd like to thank them for being so enthusiastic throughout the week! On Monday pupils were given experiences in; surfing, photography (winners to be announced in the last week!), mountain biking and gardening. Thank you to all agencies and to Elen Chick and CAMHS for their PSHE session about resilience.*

*I would like to thank the number of different agencies who have volunteered to help in YBH! On Tuesday morning, there was a very successful morning with volunteers from the 'Inspiring the Future' charity, who gave pupils the opportunity to learn about apprenticeships and different career paths. Later in the day, year 8 received sessions from Crucial Crew with Meic Cymru, CAIS, Scottish Power, Hafan Cymru, Calan, Powys Road Safety, the Food Standards Agency and Welsh Hearts. In addition to this, year 9 took part in a Geography field trip to study a river.*

*On Wednesday, the sun came out! Year 9 went on a walk, whilst year 8 received CPR training with Elen Chick. Even though the archery competition was cancelled, a 'Fun festival' was organised – where pupils had an alternative sports day in teams. During the day, pupils received drumming sessions from Stefan Jones, art, computer programming, hair and beauty with Alis Fleming, a pupil who has gone on to open her own business in this field!*

*Next, on Thursday, pupils had a morning of 5x60 activities organised by Mr G Jones and Miss Fleming. The highlight of the morning was when Tom Jones caught Miss Fleming out in the rounders! Pupils played softball, rounders, football and tennis. In the afternoon, pupils had the chance to buy products in the year 10 Enterprise sale.*

*At the end of a successful week, year 9 went to the National Library of Wales in Aberystwyth with the Welsh and English departments. Throughout the day, pupils took part in a number of activities; board games and chess, bingo with the elderly and baking. Lastly, Aberystwyth University came to the school to deliver sessions about space and robotics!*

*I really do hope that it was an enjoyable experience for all!*

*Miss Good*

# 32 Her Menter a Chyflogadwyedd




Yn ystod yr wythnos weithgareddau bu 8 grŵp o Flwyddyn 10 yn brysur iawn yn gweithio ar gynnyrch yn hybu Machynlleth fel rhan o'u gwaith ar gyfer y Fagloriaeth Gymreig.

*During the activities week 8 groups from Year 10 were very busy working on a product to promote Machynlleth as part of their Welsh Baccalaureate work.*





Yn ystod yr wythnos weithgareddau bu 8 grŵp o Flwyddyn 10 yn brysur iawn yn gweithio ar gynnyrch yn hybu Machynlleth fel rhan o'u gwaith ar gyfer y Fagloriaeth Gymreig. Cafwyd arwerthiant hynod o lwyddiannus b'nawn Dydd Iau gan godi £301.38 i gronfa bws mini yr ysgol. Ar ôl gwrando ar gyflwyniadau Trouble Makers, Fflamiau, Cael o i Fewn, Mini Mach Fest, The 4 Musketeers, Machynlleth Legends, MIAMI a Xplosion dyfarnodd y 4 gŵr doeth (sef Mr Biffin, Mr Llifon Ellis, Mr Dafydd Ellis a Mr Ros) y Machynlleth Legends yn fuddugol, The 4 Muskateers yn ail a Cael o i Fewn yn drydydd. Diolch i bawb a fu ynghlwm â'r wythnos a diolch o galon i Blwyddyn 10 am eu gwaith caled.

*During activities week, 8 groups from Year 10 were very busy working on a product to promote Machynlleth as part of their Welsh Baccalaureate work. A sale was held on Thursday afternoon and £301.38 was raised for the school mini bus fund. Having listened to presentations from: Trouble Makers, Fflamiau, Cael o i Fewn, Mini Mach Fest, The 4 Musketeers, Machynlleth Legends, MIAMI Xplosion and The Four Wise Men Mr Biffin, Mr Llifon Ellis, Mr Dafydd Ellis and Mr Ros declared the Machynlleth Legends the winners, The 4 Muskateers second and Cael o i fewn third. Thank you to everyone who was involved during the week and a special thanks to Year 10 for all their hard work.*



# Enterprise and Employability Challenge



















# 34 Her y Gymuned / Community Challenge



Yn ystod yr wythnos weithgareddau bu Blwyddyn 11 yn brysur iawn yn gweithio yn y Gymuned fel rhan o'u gwaith ar gyfer y Fagloriaeth Gymreig.

*During the activities week Year 11 were very busy working in the Community as part of their Welsh Baccalaureate work*





Yn ystod yr wythnos weithgareddau bu Blwyddyn 11 yn brysur iawn yn gweithio yn y Gymuned fel rhan o'u gwaith ar gyfer y Fagloriaeth Gymreig. Cafwyd adloniant, Ffilm-Dyfalbarhad, Hyfforddi Pêl-droed, Hyfforddi Rygbi, Hyfforddi Chwaraeon, Hyfforddi Gyrfaoedd, Ffilm-hybu Machynlleth, Garddio yng Nghartref Dyfi a helpu yn yr Ysgol Feithrin. Diolch i bawb a fu ynghlŵm â'r wythnos a diolch o galon i Blwyddyn 11 am eu gwaith caled.

*During activities week, Year 11 were very busy working in the Community as part of their Welsh Baccalaureate. We had entertainment, football coaching, rugby coaching, sports coaching, careers coaching, a film on promoting Machynlleth a film on "Perseverance", gardening in Cartref Dyfi and helping in the nursery. Thank you to everyone involved during the week and special thanks to Year 11 for all their hard work.*





# Ymweliad Techniquest





Ar 14eg o Fehefin daeth gwyddonwyr o Techniquest Wrecsam, i gynnal gweithdai gyda blynyddoedd 8 a 9. Cafodd y disgyblion hwyl yn defnyddio offer technegol i ddarganfod colled gwres o'r corff ar ffurf tonnau is-goch fel defnyddir gan yr heddlu i chwilio am bobl sy'n ceisio rhedeg ffwrdd oddi wrthynt.

Hefyd defnyddiwyd lampau uwch fioled i ddarganfod negeseuon cudd ar fainc y labordy bioleg!

Roedd cyfle hefyd i arbrofi gyda magnedau a phêl plasma.

Edrychwn ymlaen at groesawu Techniquest nôl atom eto ym mis Medi.

*On the 14th June scientists from Techniquest in Wrexham ran workshops for years 8 and 9 pupils.*

*Pupils enjoyed using technological equipment to discover heat loss from the body in the form of infra- red waves, as used by police to catch runaways.*

*Ultra violet lamps were also used to discover secret messages written on the biology laboratory bench!*

*There was also a chance to experiment with magnets and a plasma ball.*

*We look forward to welcoming Techniquest back early in September.*

## Rownd terfynol cystadleuaeth Cemeg Top of the Bench yn Loughbrough

Llongyfarchiadau mawr i Abi Edwards, Cerys Hickman, Ieuan Jones a Joe Lewis a gyrhaeddodd rownd derfynol cystadleuaeth cemeg Top of the Bench ym Mhrifysgol Loughborough - cyfrifoldeb mawr i gynrychioli canol a gogledd Cymru - da iawn i chi gyd!



*Massive congratulations to Abi Edwards, Cerys Hickman, Ieuan Jones and Joe Lewis who reached the final of the Top of the Bench Chemistry competition in Loughborough University. It was a big responsibility to represent mid and north Wales - well done to you all!*

# Ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol

Ar y 26ain o Fehefin bu myfyrwyr o'r 6ed dosbarth yn ymweld â'r llyfrgell genedlaethol.

*On the 26th of June, students from year 12 visited Aberystwyth University to learn about the individual BAC project that we will complete during year 13.*




Ar y 26ain o Fehefin bu myfyrwyr o'r 6ed dosbarth yn ymweld â'r llyfrgell genedlaethol yn Aberystwyth er mwyn dysgu am y prosiect unigol—uned bwysig o'r Bac y bydd angen ei gwblhau yn ystod blwyddyn 13. Wedi i ni gyrraedd, buom yn gwrando ar gyflwyniadau diddorol a chymryd rhan mewn gweithdair defnyddiol yn yr adran wleidyddiaeth ryngwladol.

Wedyn buom i'r llyfrgell genedlaethol lle cawasom drosolwg o'r gwaith y mae'r llyfrgell yn ei wneud yn ogystal â derbyn cyflwyniad ar y dull Harvard o gofnodi ffynonellau oedd hyn yn hynod o sesiwn ddiddorol lle y dysgon ni amryw o dechnegau defnyddiol a oedd ynghlwm â'r prosiect unigol. Cawsom daith ddiddorol wedyn o amgylch y llyfrgell genedlaethol lle y dysgon ni am nifer o weithiau celf, llyfrau, ffilmiau, mapiau a llawer mwy sydd yn cael eu cadw yn y llyfrgell.

Yn olaf, ar ddiwedd y diwrnod buom mewn gweithdy am beth sydd yn gwneud arweinydd da. Oherwydd ambell broblem gyfrifiadurol yn y llyfrgell, ni chawsom y cyfle i gwblhau'r weithgaredd yma . Roedd hwn yn ddiwrnod llwyddiannus a fydd o gymorth mawr i ni wrth ysgrifennu'r prosiect ymchwiliad unigol yn ystod y flwyddyn nesaf.

*On the 26th of June, students from year 12 visited Aberystwyth University to learn about the individual BAC project that we will complete during year 13. When we first arrived, we visited the department of international politics where we had an introduction to the BAC individual project. We worked in teams to advertise a random product that we were given; this helped to develop our team skills and our creative skills.*

*Then we went to the national library where we were given a brief overview of what the library does: we learned about the Harvard Referencing System,. This was a very useful and interesting session. We learnt a lot which will help us in our individual project. We were then given an interesting tour around the national library and learned about the library and the many books, paintings, films and maps that it holds.*

*Finally, to end the day we had a workshop about leaders and the things that make a good leader. Unfortunately, because of some unfortunate computer problems, we were not able to complete the workshop, but we still learnt a lot and had great discussions regarding what makes a good leader. All in all this was a very productive and interesting day.*

*Gan Dafydd Evans*

# Ymweld â'r Parc Saffari / West Midlands Safari Park trip



Teithio draw i Barc Saffari West Midlands wnaeth disgyblion dosbarth 5/6H a 5/6J ddydd Mercher 28 Mehefin ar gyfer eu hymweliad diwedd blwyddyn. /

Pupils from classes 5/6H and 5/6J travelled to West Midlands Safari Park on June 28 for their annual trip.

Teithio draw i Barc Saffari West Midlands wnaeth disgyblion dosbarth 5/6H a 5/6J ddydd Mercher 28 Mehefin ar gyfer eu hymweliad diwedd blwyddyn. Eleni, y disgyblion fu'n gyfrifol am drefnu'r ymweliad fel rhan o brosiect llythrennedd a rhifedd gyfoethog. Yn ystod y tymor bu'r disgyblion yn ymchwilio i gostau, pellter ac atyniadau ayyb ac yn cynnal arolwg barn er mwyn cynllunio yr ymweliad delfrydol ar gyfer eu hangenion. Wedi'r holl baratoi, chafodd y disgyblion ddim eu siomi, cawsant ddiwrnod penigamp yn y parc saffari. Mwynhawyd taith drwy'r saffari a rhyfeddwyd at yr holl anifeiliad gwyllt a welwyd, yna bu'r disgyblion yn crwydro i ardaloedd gwahanol i weld a dysgu am anifeiliaid a'u hangenion. Cyn troi am adre, treuliodd y disgyblion amser yn y parc thema. Diwrnod i'w gofio!

*Pupils from classes 5/6H and 5/6J travelled to West Midlands Safari Park on June 28 for their annual trip. This year, the pupils themselves where responsible for arranging their own trip as part of a Literacy and Numeracy project. During the term, the pupils had been busy looking into costings, distance and different attractions, arranging questionnaires to find the best visit for them. After all the arranging, the pupils were not disappointed, and enjoyed a fantastic day at the Safari Park. The bus took the pupils through the park where they had a chance to see all the wild animals, then the pupils had an opportunity to roam around different areas to learn more about the animals and their habitats. Before leaving for home, the pupils spent some time at the theme park. A day to remember!*

# Cystadleuaeth Rownderi'r Urdd / Urdd Rounders

*Cynhaliwyd Cystadleuaeth Rownderi'r Urdd ddydd Mawrth 20 Mehefin yn Ysgol Hafren, Y Drenewydd. Bu tri thîm o'r ysgol yn cymryd rhan, a chawsant hwyl arbennig yn ystod y dydd. Ar ddiwrnod crasboeth, gwelwyd cystadlu brwd gan y disgyblion a chawsant gyfle i ddangos eu sgiliau taro a maesu. Llongyfarchiadau i'r tri thîm am gymryd rhan, ac yn arbennig i aelodau Tîm A wnaeth gyrraedd y rownd derfynol!*

*The Urdd rounders competition was held on Tuesday June 20 at Hafren School, Newtown. Three teams from the school took part and thoroghly enjoyed the day. Congratulations to all three team for taking part, especially to team A who reached the final round.*

# Trip sgïo i Awstria 2017

Ar y 7ed o Ebrill, aeth 42 disgybl a 6 staff ar daith sgio i Zell am See - Awstria. Treuliom 7 diwrnod yn chwerthin, cysgu, sgio a bwyta. . . .roedd hi'n daith i'w chofio! Roedd y plant yn codi am 7yb i fwyta digon o frecwast ac yna'n cael 4 awr o wersi sgio. Er fod drost 80% o'r disgyblion erioed wedi sgio o'r blaen, roedd pawb wedi llwyddo i sgio lawr llawer o lwybrau glas a coch erbyn yr ail ddiwrnod. Am 4 o'r gloch, doedd ein diwrnod heb orffen, roedd rhywbeth wedi'i drefnu iddynt pob noson gan gynnwys — nofio, disgo, 'alpine coaster', cwis, siopa a bowlio deg. Roedd pob disgybl yn wych, ac wedi cyfrannu yn fawr i'r daith. Rydym yn edrych ymlaen at drefnu'r daith nesaf yn fuan!!!

Isod mae dyfyniadau gan rai o'r disgyblion a fu ar y daith.

- Roedd y tywydd yn gwbl annisgwyl - 23 gradd a phawb yn eu dillad mwyaf cynnes! Ar ôl y diwrnod cyntaf, edrychodd pen Mr Owen fel tomato wedi cochi o gywilydd!
- Un o'r tripiau gorau erioed! Heblaw am y daith bws 26 awr; roedd canu Mr Gruffudd Jones a jôcs y pennaeth yn ddigon i wneud unrhyw un yn sâl!
- Gwelon ni chi Mr Owen - pigo'ch Cola fel bod neb yn gwybod. . . . Ac yna trio cerdded i fyny'r staer i'ch 'stafell !
- Dyma'r trên yn dod, gyda phawb yn mynd lawr y sleid dŵr ar yr un tro. . . Aw! Doedd y 'lifeguard' ddim mor hapus. . .
- Roedd y disgo yn wych. . . cafodd Dafydd Jones hwyl, hyd yn oed. . .
- Tony'r dreifiwr bws yn mynd can milltir yr awr i lawr y Black Mamba ar ei sgîs pinc, un metr!

On the 7th April, 42 pupils and 6 members of staff went on a skiing trip to Zell am See — Austria. We spent 7 days laughing, sleeping, skiing and eating. . . .it was a trip to remember! The pupils were up at 7am eating their breakfast and then had 4 hours of skiing lessons. Even though over 80% pupils never skied before, they were all able to ski down various blue and red slopes by the second day. At 4pm, our day hadn't finished, entertainment was arranged for every night including — Swimming, disco, Alpine Coaster, Quiz, shopping and Tenpin Bowling. Every pupil was fantastic, and contributed well. We look forward to arranging our next trip soon!!!

Below are some quotes from various pupils who went on the trip.

- The weather was unexpected… over 23°C, and everyone in their jackets, thermals, hats and gloves instead of shorts and t-shirts. Mr Owen's head looked like a blushing tomato!
- One of the best school trips ever—except for the 26 hours by bus! Mr Gruff Jones' singing was dreadful, and the Headmaster's jokes were enough to make anyone sick!
- We saw you, Mr Owen - spiking your Cola so nobody would know. . . . . . then trying to make it up the stairs!
- Here comes the train! Everyone down the slide at once…ouch! But the lifeguard didn't approve of that.
- The disco was crazy! Even Mr. Dafydd Jones had fun. . .
- Tony the bus driver, going a hundred miles per hour down the Black Mamba on his pink, metre-long skis!

# Skiing trip to Austria 2017











# Adran Addysg Gorfforol

Cofiwch ein dilyn ar Twitter! @AGHyddgenPE

Yn ystod dydd Gwener olaf cyn Pasg bu tim cyntaf y chweched yn cystadlu am blat Eryri yng Nghaernarfon. Hwn oedd y tro cyntaf i'r ysgol gyrraedd y rownd derfynol am dros 10 mlynedd ac yn ymdrech gwych gan y garfan gan ystyried eu niferoedd. Pob lwc i Jake Hinge, Ifan Jones, Jarrow, Dafydd George, Alex Davies a Malachi a oedd yn chwarae yn eu gêm olaf i'r ysgol!

*On the last Friday before Easter made the first team competed in the final of the Snowdonia plate in Caernarfon. This was the first time the school have been finalists for over 10 years and is a great effort by the team considering their numbers. Good luck to Jake Hinge, Ifan Jones, Jarrow, Alex Davies and David George Malachi who played in their last game for the school!*

Bu blwyddyn 10 yn brysur iawn gan gyrraedd y rownd gyn-defynol plat Eryri. Roedd hi'n gêm agos iawn gyda'r tim yn colli o un cais gyda'r gwrthwynebwyr yn mynd ymlaen i ennill y rownd derfynol o 7 cais i 1. Mae'r dyfodol yn un disglair iawn i nifer o'r bechgyn.

*It was also another very busy year for year 10 who reached the semi final of the Snowdonia plate. It was a very close game with them only just losing by one try; their opponents eventually went on to win the final with ease. The future is very bright for many of the boys.*

Bu disgyblion blynyddoedd 7-10 yn cystadlu yng nghystadleuaeth Powys yn ystod y tymor yn Aberhonddu gyda nifer o ddisbylion yn serenu. Llongyfarchiadau i'r disgyblion isod ar eu perfformiadau ac i Tim Freeman, Craig Debell ac Ellie Hinge a gafodd eu dewis i gynychioli'r Sir yng nghystadleuaeth Cymru yn Leckwith, Caerydd.

*Pupils in years 7-10 competed in the Brecon Powys County competition this season in which several pupils excelled. Congratulations to the pupils following their performances and to Tim Freeman, Craig Debell and Ellie Hinge who were chosen to represent the County in Leckwith, Cardiff.*

Glanllyn: Grwp BTEC Awyr Agored yn cael amser da yng Nglanllyn. Roedd rhai o'r gweithgareddau yn cynnwys dringo a chyfeiriannu Mynydd Y Garn, dringo yng nghanolfan Caernarfon a meistroli cwrs rhaffau uchel.

*Glan Llyn: BTEC out door sports having a good time in Glan Llyn. Some of the activities included climbing and rope courses.*







# Adran Addysg Gorfforol

Cofiwch ein dilyn ar Twitter! @AGHyddgenPE



## 1af

Dylan Tibbets – Owen – High Jump

Craig DeBell – High Jump

Ellie Hinge – Shot Put

## 2il

Gwern Phillips – 100m

Gwern Phillips – 200m

Hefin Pughe – 800m

Sophie Jones – 1,500m

Tim Freeman – Triple Jump

Year 10 Girls – Relay

Year 10 Boys - Relay

## 3ydd

Teal Higgins – Hurdles

Kiran Ingham – 800m

Lauren Watts – Triple Jump

## 4ydd

Craig DeBell – 100m

Emma Halls – Hurdles

Cerys Symmonds – 800m

Lauren Watts – 800m

Jack Owen – 1,500m

Tatyana Sanders – Long Jump

Llio Evans – High Jump

Beth Evans – Shot Put










# Adran Addysg Gorfforol

Cofiwch ein dilyn ar Twitter! @AGHyddgenPE

Ddydd Sadwrn, 2il o Orffennaf bu Tim Freeman, Craig Debell (Bl.10) a Ellie Hinge (Bl.9) yn cystadlu ym mhencampwriaeth Cymru gan gynrychioli Sir Powys. Roedd Tim yn cystadlu ar y naid drifflyg, Criag ar y 100m, ras gyfnewid a'r naid hir ac Ellie ar y pwysau. Da iawn chi!

*On Saturday July 2nd, Tim Freeman and Craig Debell (Year 10) and Ellie Hinge (Y9) competed in the Welsh championship representing Powys. Tim competed in the triple jump, Craig in the 100m, long jump and relay and Ellie in Shot Putt. Well done!*





Pob lwc i'r criw TGAU a Lefel A sy'n cwblhau y cwrs Tymor yma. Roedd y ddau grŵp yn hynod o dalentog ac wedi cystadlu dros yr ysgol mewn amryw o chwaraeon. Pob lwc i chi gyd!

*Good luck to the GCSE and A level crew who completed the course this year. The two groups have competed in various sports in the school. Good luck to you all and we hope you come back to visit soon!*



Bu'r timau bechgyn blwyddyn 7 i 9 yn brysur gyda Twrnament Criced yn Drenewydd yn erbyn ysgolion Powys, ac ysgolion clwstwr yn Nolgellau. Chwareoedd y bechgyn yn dda gyda'r clybiau ar ol ysgol yn dod i'r amlwg yn batio a bowlio. Da iawn i bawb wnaeth gymryd rhan

*Year 7-9 boys were in a Cricket Tournament in Newtown against schools in Powys, and against cluster schools in Dolgellau. They played exceptionally well and all the training after school paid off. Well done to everyone who participated.*

# Adran Addysg Gorfforol

Cofiwch ein dilyn ar Twitter! @AGHyddgenPE



Llongyfarchiadau i Dylan OT a oedd yn chwarae I Glwb Pêl Droed Bala ac yn mynd ymlaen i ennill cwpan Cymru. Mae Dylan wedi cael blwyddyn i'w gofio yn y maes chwaraeon, dal ati!

*Congratulations to Dylan OT who played for Bala FC and went on to win the Welsh Cup. Dylan has had a fantastic year in sport, keep up the good work.*



Mae Craig o flwyddyn 10 wedi cael tymor prysur ar y cae Rygbi gan gynrychioli RGC dan 15 yn erbyn gwrthwynebwyr ar draws Cymru. Disgybl arall gyda dyfodol diglair!

*Craig from Year 10 has had a busy term in on the rugby field representing RGC U15 against oppositions from around Wales. Another pupil with a fantastic sporting future ahead of him!*



# Hyfforddiant gan Cyfeillion Dementia

Cyngor Ysgol Bro Hyddgen (campws uwchradd) yn derbyn hyfforddiant hynod o werthfawr Cyfeillion Dementia gan Sarah Bailey.

*School Council (secondary campus) being trained to be Dementia Friends by Sarah Bailey*



Dyma Gyngor Ysgol Bro Hyddgen (campws uwchradd) yn derbyn hyfforddiant hynod o werthfawr Cyfeillion Dementia gan Sarah Bailey. Bydd yr hyfforddiant hwn yn galluogi i aelodau'r cyngor fod yn llysgenhadon Dementia Gyfeillgar, a byddant yn rhannu'r hyn maent wedi'i ddysgu gyda disgyblion eraill y campws. Mae tref Machynlleth wedi'i hadnabod fel tref Dementia Gyfeillgar, ac mae Cyngor yr Ysgol yn falch iawn o fod wedi arwain Ysgol Bro Hyddgen i fod yn ysgol Dementia Gyfeillgar.

This is the School Council (secondary campus) being trained to be Dementia Friends by Sarah Bailey - this was very worthwhile training. This training will enable the council members to be Dementia Friendly ambassadors; they'll be sharing what they have learnt with other pupils on the campus. Machynlleth has been recognized as a Dementia Friendly town, and the School Council are proud to have led Ysgol Bro Hyddgen to be a Dementia Friendly school.

# Codi ymwybyddiaeth Down Syndrome / *Down Syndrome awareness day*

Ddydd Mawrth, 21 Mawrth, cafwyd diwrnod 'Rock your socks' yn yr ysgol ble cafodd y disgyblion gyfle i wisgo sannau gwahanol liw, batrwm ac un o bob un pâr. Llwyddodd yr ysgol i godi £121.20 trwy gyfraniadau'r disgyblion tuag at yr elusen 'Follow your dreams'.

On Tuesday, March 21 a 'Rock your socks' day was held on the Primary Campus when the pupils wore mis matched socks, any colour, pattern or one of each pair. The school managed to raise £121.20 through the pupils' donations towards the 'Follow your dreams' charity.

# Gwaith Maes Daearyddiaeth / Geography Field Work





Yn dilyn blwyddyn brysur arall o fewn yr Adran, cafwyd penllanw ardderchog drwy gymryd 100 o ddisgyblion allan ar waith maes-ond nid i gyd ar yr un pryd ! Yn ystod yr wythnos weithgareddau, ymwelodd Blwyddyn 8 ar Afon Twymyn, gan gynnwys ymweliad i Lyn Glaslyn ger Foel Fadian. Aeth Blwyddyn 7 i dref Machynlleth i gyfrif ceir a cherddwyr, tra bu i Flwyddyn 10 fentro ychydig ymhellach i Nantmor, ger Beddgelert, i astudio'r afon Cwm Bychan fel rhan o'u cwrs TGAU Daearyddiaeth. Profwyd ystod eang iawn o dywydd – popeth ond eira, i ddweud y gwir ! Mawr obeithiwn eu bod nhw wedi mwynhau dysgu yn y dosbarth gorau, sef y dosbarth awyr agored, ac ein bod wedi eu hysbrydoli i ymweld â rhai mannau rhywdro eto dros yr Haf.

*Following another busy year within the Department, we organised that over 100 pupils could take part in Fieldwork activities during Activities week. Year 8 undertook a River Investigation on the Afon Twymyn, including a visit to Llyn Glaslyn, near Foel Fadian. Year 7 carried out Urban Fieldwork in Machynlleth, and Year 10 ventured further afield to Nantmor, near Beddgelert, in the Snowdonia National Park, as part of their NEA Geography GCSE. We experienced all types of weather from heavy rainfall to glorious sunshine - but it's safe to say that everyone learnt in a new way about their local area and perhaps even inspired them to visit some areas again over the summer!*

# Addysg Heddwch / Peace Education



Diolch yn fawr iawn i Mrs Medi James a Mrs Dafis sydd wedi bod yn ymweld â'r ysgol dros yr wythnosau diwethaf yn cyflwyno Addysg Heddwch i ddisgyblion dosbarthiadau 3/4S, 3/4P a 4/5T.

*Thanks to Mrs Medi James and Mrs Dafis for visiting the school over recent weeks teaching the pupils about Peace Education in classes' 3/4S, 3/4P and 4/5T.*

# Noson Wobrwyo / Awards Evening



Llongyfarchiadau mawr i bawb ar eu llwyddiant.

*Congratulations to everyone on their success.*





Nos Lun, Mehefin 26, cafwyd noson wobrwyo hynod lwyddiannus ar y campws uwchradd wrth i ni fel ysgol a'r gymuned ddathlu llwyddiant ein disgyblion mewn amrywiol feysydd boed yn academaidd, yn gymunedol, yn ddiwylliannol neu'n gelfyddydol.
Roedd y neuadd dan ei sang wrth i ni glywed enwau'r disgyblion hynny a gafodd eu henwebu yn yr amryfal gategorïau cyn clywed pwy oedd yn fuddugol eleni. Braf oedd cael cefnogaeth y llywodraethwyr ar y llwyfan wrth iddynt gyflwyno'r gwobrau i'r enillwyr.

- Cwpan Val James - Emma Halls
- Cwpan Meirionna Jones - Teleri Jones
- Cwpan Wyn Thomas - Molly Lewis
- Cwpan Mrs Nerys Williams - Lucy Jenkins
- Cwpan Menna Wyn Price - Chloe Walker-Davies
- Tarian Adwy Deg - Paul Faber
- Gwobr Er Cof Mared Elfyn - Niamh Cumming
- Gwobr Berfformio - Mared Jones
- Tarian y Cynghorydd J Michael Williams - Niamh Cumming
- Gwobr John Edwards - Steffan Williams
- Cwpan Lis Puw - Ifan Jones
- Gwobr Goffa Linda Harding - Cerys Hickman
- Gwobr Dr Eric Smith - Maisie Sandells
- Cwpan Guto Pugh - Cerys Hughes a Malachi Taylor
- Gwobr Ceffyl Du - Ella White

Monday evening, June 26th the school hosted another successful awards evening in the secondary campus as the school and the community celebrate our pupils' 'academic success, work in the community, charity and volunteering. The school hall was full with friends and families of the pupils who were nominated and the winners of each category. It was a very special event and it was wonderful to have the help and support of our school governors on stage where they gave the awards to each pupils in each category.

- Val James Cup - Emma Halls
- The Meirionna Jones Cup - Teleri Jones
- The Wyn Thomas Cup - Molly Lewis
- Mrs Nerys Williams Cup - Lucy Jenkins
- The Menna Wyn Price Cup - Chloe Walker-Davies
- Adwy Deg Trophy - Paul Faber
- Mared Elfyn Memorial Award - Niamh Cumming
- Performance Award - Mared Jones
- Cllr J Michael Williams Sheild - Niamh Cumming
- John Edwards Award - Steffan Williams
- The Lis Puw Cup - Ifan Jones
- The Linda Harding Memorial Award - Cerys Hickman
- The Dr Eric Smith Award - Maisie Sandells
- The Guto Pugh Cup - Cerys Hughes a Malachi Taylor
- The Black Horse Award - Ella White

# Noson Wobrwyo / Awards Evening

















# Swimathon



Llongyfarchiadau mawr i bawb ar eu llwyddiant.

*Congratulations to everyone in their success.*



Ar y 6ed o Ebrill llwyddodd nifer o ddisgyblion i nofio 5km ym mhwll nofio Machynlleth i'r Swimathon. Roedd hi'n brynhawn llwyddiannus gyda rhai disgyblion yn penderfynu nofio mwy nag y disgwylir. Bu'r disgyblion yn nofio am 2 awr, a llwyddom i godi £703.50 i Marie Curie. Da iawn i bawb gyfrannodd.

*On the 6th of April, many pupils successfully swam 5 km in Machynlleth Leisure Centre for the Swimathon. It was a successful afternoon with some pupils managing to swim further than expected. The pupils swam for 2 whole hours and managed to raise £703.50 for Marie Curie. Well done to everyone that participated.*



# Rhedeg i Gaerdydd: “Jog and Trot”







**Rhedeg i Gaerdydd**

Nos Fercher 14 Mehefin rhedodd plant y Campws Cynradd i Gaerdydd! Ras noddedig oedd hon, wedi'i threfnu gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon er mwyn codi arian i brynu offer ac adnoddau er mwyn datblygu'r iard a'r ardaloedd allanol yn yr ysgol. Yn y gwres poeth arddangosodd y plant sgiliau cydweithio a dyfalbarhad arbennig wrth redeg mewn cyfnewid â'i gilydd er mwyn cyrraedd y targed. Llwyddwyd i godi £1000 ac mae'r ysgol yn ddiolchgar iawn i'r gymdeithas rieni am drefnu; i'r rhieni eu hunain am gefnogi a noddi; a hefyd i Jonathan Thomas, y swyddog 5x60 am fod wedi ennyn brwdfrydedd ymysg y plant a chynorthwyo ar y noson. Yn y llun gwelir Freya Pritchard, Finley Griffen a Grace Stevens sef y tri oedd wedi codi'r mwyaf o arian.

***Jog and Trot***

*On Wednesday, 14th June pupils from the Primary campus ran to Cardiff! This was a sponsored race arranged by the PTA to raise funds to buy equipment to develop the yard and the outside spaces. The pupils managed to run the distance as a relay team by working together they were able to complete the run. £1000 was raised. The school is very grateful to the PTA for arranging the event, to parents for their support and to Jonathon Thomas, the 5x60 officer for encouraging the pupils on the day. Special thanks go to Freya Pritchard, Finley Griffen and Grace Stevens the three pupils who raised the most sponsor money. Well done to all who took part.*

# Profiad gwaith gyda CAMAD

Chloe Walker- Davies ar brofiad gwaith eleni gyda CAMAD

Chloe Walker-Davies has been attending work experience this year at CAMAD




Mae Chloe Walker- Davies Blwyddyn 10 wedi bod yn gwneud profiad gwaith eleni gyda CAMAD sydd yn sefydliad gwirfoddol ym Machynlleth. Mae hi wedi bod yn helpu yn nifer o'r clybiau a derbyniodd dystysgrif am ei gwaith gan Linda Hayward; Rheolwraig CAMAD.

Dywedodd Chloe ei bod hi wedi mwynhau ei hamser yn CAMAD a gweithio gyda Linda a Hollie a hefyd y cwsmeriaid i gyd. Mae hi wedi gwella ei sgiliau cyfathrebu, cymdeithasu, cyfarfod a siarad gyda'r cwsmeriaid ond hefyd gweithio mewn tîm.

*Chloe Walker-Davies YEAR 10 has been attending work experience this year at CAMAD which is a voluntary organisation in Machynlleth. She has been helping at Foot Club and Lunch club. Here she is being presented with certificates by Linda Hayward the Manager of CAMAD.*

*Chloe says she has enjoyed her time at CAMAD working with Linda and Hollie and all the clients. I improved my communication skills and social skills, meeting and talking with the clients and working as a team.*

# Creu App Gyda Plant-i

Dymuna'r Ysgol ddiolch yn fawr iawn i Plant-i am roi'r cyfle i'r clwb TGCh ddatblygu app argyfwng a fydd efo gwybodaeth a fideo's gyda beth y dylid wneud mewn argyfwng meddygol. Mae'r clwb bellach wrthi'n gwneud y newidiadau a gafodd eu hawgrymu gan Plant-i cyn mynd ati i ddatblygu'r drafft cyntaf o'r app!

*The school would like to thank Plant-i for the opportunity to work with the ICT club and develop an app on what to do in an medical emergency. The club members are now implementing the feedback that Plant-I gave them before developing the first draft of the app!*



# Cwis llyfrau – Darllen Dros Gymru





Ddydd Gwener 12 Mai roedd cryn gyffro i'w deimlo ymhlith dau dîm o ddarllenwyr brwd yr ysgol wrth iddynt deithio i Ysgol Dafydd Llwyd yn y Drenewydd i gymryd rhan yn ail rownd y Cwis Llyfrau. Roedd y tîm o ddisgyblion Blwyddyn 3 & 4 yn trafod y Y Wrach yn y Coed, addasiad Emily Huws, ac yn perfformio cyflwyniad o'r llyfr Na Nel! Aaa gan Eleri Wyn James.

Nofel gan Anni Llŷn, sef Asiant-A oedd yn cael ei thrafod gan y criw brwdfrydig o flwyddyn 5 & 6, ac roedd eu cyflwyniad hwy yn seiliedig ar un o nofelau enwocaf Roald Dahl, Charlie a'r Ffatri Siocled.

Mae'r plant i gyd wedi mwynhau'r profiad yn fawr a rhaid canmol eu hymroddiad. Llongyfarchiadau calonnog i dîm Blwyddyn 5 & 6 ar ddod yn fuddugol.

Bu tîm o ddisgyblion Blwyddyn 5 & 6 yn cystadlu yn Rownd Genedlaethol y Cwis Llyfrau yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth ar Mehefin 12 yn cynrychioli Powys. Cafodd y criw hwn o ddarllenwyr brwd hwyl dda ar baratoi ar gyfer y gystadleuaeth. Cawsant flas ar ddarllen a thrafod un o nofelau Manon Steffan Ros, sef Pluen. Un o'r uchafbwyntiau oedd cael cyfle i drafod y nofel gyda Manon ei hun a fu'n ymweld â'r ysgol. Yn ogystal â thrafod llenyddiaeth, bu'r disgyblion yn perfformio cyflwyniad i'r nofel Charlie a'r Ffatri Siocled. Buont yn ymarfer yn brysur a chawson nhw wefr arbennig o berfformio i'r gynulleidfa yng Nghanolfan y Celfyddydau. Yn ystod y dydd, cafodd y disgyblion hwyl yng nghwmni Anni Llŷn, un arall o'u hoff lenorion. Profiad gwerthfawr a chofiadwy iawn!

*On Friday May 12th two teams travelled to Ysgol Dafydd Llwyd in Newtown to take part in the second round of the Welsh Book Quiz competition. The Year 3 & 4 team were discussing 'Y Wrach yn y Coed' byd Emily Huws and performing a presentation from 'Na Nel! Aaa by Eleri Wyn James.*

*The Year 5 & 6 team were discussing a novel by Anni Llyn, 'Asiant-A' and their presentation was based on one of Roald Dahl's most famous novels 'Charlie and the Chocolate Factory'. The pupils had been practicing for weeks. They enjoyed the performance coming first in the competition.*

*Year 5 & 6 team went on to represent Powys in the Wales finals at the Arts Centre in Aberystwyth. The pupils put a lot of effort into getting ready for their performance. They discussed a novel by Manon Steffan Ros, 'Pluen'. One of the highlights for this team was having Manon visit the school to discuss her novel with them. They performed their 'Charlie and the Chocolate Factory' presentation to a full hall at the Arts Centre. During the day, they also had an opportunity to meet Anni Llyn one of their favourite authors. They enjoyed the experience immensely.*

# 52 Sut ydym yn cyfathrebu

## Sut mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda'r plant, rheini a'r gymuned?

## How does the school communicate with pupils, parents and the community?



Mewn cymuned wledig fel Machynlleth mae'n hanfodol bwysig fod ein pobl ifanc a'u rheini yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael yn yr ysgol. Mae'r ysgol wedi defnyddio technoleg yn effeithiol er mwyn llwyddo. Er mwyn sicrhau hyn mae gan yr ysgol system gyfathrebu effeithiol gyda nifer o dechnegau sydd yn gwneud hyn yn bosib a hynny wyth gyfathrebu yn fewnol ar gyfer ein disgyblion a staff ond hefyd yn allanol gydag ymwelwyr, rheini a'r gymuned.

**Gwefan yr Ysgol**

Mae'r wefan yn hanfodol i rannu gwybodaeth bwysig, ffurflenni, llythyrau a hefyd hyrwyddo'r ysgol i'r gymuned a thu hwnt. Mae'r wefan yn ddwyieithog ac yn hysbysebu'r prosbectws a newyddion blog drwy twitter a hefyd llwyddiannau'r ysgol yn yr ardal newyddion.

Gwefan : https://www.brohyddgen.powys.sch.uk

**Cyfryngau Cymdeithasol (Twitter a Facebook)**

Mae defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn hanfodol i sicrhau cyswllt cryf rhwng y cartref a'r ysgol. Mae yna gymaint o ddigwyddiadau a llwyddiannau yn digwydd yn yr ysgol ac mae rhieni yn ddiolchgar ein bod ni'n cyhoeddi'r rhain a'u cadw nhw mewn cyswllt gyda'r ysgol yn eu ffrwd cyfryngau cymdeithasol Facebook a Twitter. Un o fanteision cyfryngau cymdeithasol ydy fod rhieni yn gallu cadw mewn cyswllt â'r ysgol trwy wahanol ddulliau a thechnoleg, boed hynny yn gyfrifiadur, yn dabled neu yn ffôn symudol.

Facebook : https://www.facebook.com/BroHyddgen

Twitter: https://twitter.com/brohyddgen

*For a small school in a rural area as Machynlleth it is essential that pupils and parents are aware of all the opportunities that are available at the school. The school has been successful in using technology to achieve this aim. The school has used a range of effective communication systems to carry out its aim of effective communication internally between staff and pupils but also externally with stakeholders including visitors, parents and the wider community.*

***The School Website***

*The school website is an essential tool for sharing key information including forms, letters, important documents and messages. The school targets its bilingual website at new pupils and their parents through its online prospectus and news blog which is fed through the school's twitter feed. In the news section, important news and developments which are taking place at the school are posted as they happen during the school year.*

*Website: https://www.brohyddgen.powys.sch.uk*

***Social Media (Twitter and Facebook)***

*The use of social media is a key aspect of the school's success in ensuring effective school and home communication. There are many school events and achievements which deserve to be recorded and the most effective and popular way to share these with parents is through using Twitter and Facebook. The advantage of social media is the ability for parents to view school postings using many different devices including the Twitter and Facebook website, using portable devices such as tablets and smart phones.*

*Facebook : https://www.facebook.com/BroHyddgen*

*Twitter: https://twitter.com/brohyddgen*

# How we communicate

## Neges Testun

Ers 2012 mae'r ysgol wedi mabwysiadu system teachers 2 parents sydd yn caniatáu i'r ysgol i yrru neges destun at y rheini. Nid negeseuon i hysbysu'r rhieni nad yw eu plentyn wedi gwneud ei waith cartref mo rhain yn unig ond defnyddir y cyfrwng hwn fel arf i atgoffa'r rhieni am ddigwyddiadau'r ysgol yn ogystal â rhoi gwybod i'r rhieni am unrhyw waith da y mae eu plentyn yn ei wneud yn yr ysgol. Trwy ganmol y plant a throsglwyddo'r neges yma i'r cartref mae'r rheini hefyd yn gallu canmol eu plant ac rydym yn llwyddo i hyrwyddo cyfathrebu a chysylltiad cyson a chlir rhwng yr ysgol a'r cartref.

## Llwyfan e-ddysgu'r Ysgol (VLE)

Mae'r ysgol eisoes wedi defnyddio nifer o systemau effeithiol ar gyfer cau'r bwlch rhwng adnoddau dysgu yn y cartref a'r ysgol. Rydym yn defnyddio Remote Desktop, Moodle a hefyd Office 365 sydd yn caniatáu i bob disgybl yn yr ysgol  gael mynediad i system yr ysgol o'r cartref. Rydym hefyd yn sicrhau fod gan pob plentyn fynediad i becynnau meddalwedd yr ysgol am ddim yn y cartref i sicrhau cyfle cyfartal i bob plentyn yn yr ysgol.

## Ein Bro Papur Newydd yr Ysgol

Yn ei hanfod, pwrpas papur newydd yr ysgol, Ein Bro, yw dathlu llwyddiannau ein disgyblion; rhoi cydnabyddiaeth a bri i'r disgyblion hynny sy'n cymryd y cam ychwanegol hwnnw ac yn serennu gan obeithio annog eraill i ddilyn yr un llwybr. Mae'n llinyn cyswllt effeithiol tu hwnt rhwng yr ysgol, y rhieni a'r gymuned ac yn arddangos doniau ein pobl ifanc.

Gellir lawr lwytho'r papur newydd yma: https://www.brohyddgen.powys.sch.uk/cy/gwybodaeth/papur-newydd-ysgol-ein-bro

Anwiredd fyddai dweud mai gwaith un person yw'r wefan a holl ddulliau cyfathrebu arloesol yr ysgol, gan gynnwys Ein Bro. Mae'n waith tîm; yn ffrwyth llafur y disgyblion a'r staff.

Mae'n diolch ni'n fawr i bawb sydd wedi cyfrannu ac sy'n parhau i gyfrannu gan obeithio y bydd dulliau cyfathrebu'r ysgol yn parhau i ddatblygu am flynyddoedd i ddod.

## *Text Messaging*

*Since 2012 the school has adopted this system for communicating with parents and from its early adoption date to the present day, it has gone from strength to strength. Using the teachers2parents software the school has been able to, not only message reminders to pupils' parents about homework or events, but also to promote pupil achievement. The school firmly believes that praising pupil achievement can lead to improved behaviour. Text messaging allows the school to praise where praise is due and for the praise to reach the home in an instant. The text messaging medium secures effective communication between the school and home.*

## *E-learning and the use of VLE*

*The school has always used effective e-learning systems to close the gap between home and school. The school uses a range of e-learning systems including remote desktop which allows all its pupils to remote into the school from home and access a school based learning experience, regardless of their location. The school also uses Moodle and Office 365 which enables its pupils to access their learning from anywhere, at anytime of the day. The school also provides the same software, which can be used in the home as if they were in school. This is provided via the remote desktop application or the Office 365 portal. This ensures that all the school's pupils have the tools they need to succeed.*

## *Ein Bro, the school newspaper*

*The main purpose of the school newspaper Ein Bro is to celebrate the success of its pupils and to recognise their achievements, with the aim of inspiring others to follow. It is an also a vital communication link between the school, home and the community which aims to inform and showcase the talents of the young students.*

*Download the newspaper: https://www.brohyddgen.powys.sch.uk/cy/gwybodaeth/papur-newydd-ysgol-ein-bro*

*It would not be fair to credit all the communication tools that the school uses, including the school newspaper Ein Bro, to 1 person. Ensuring and applying good 21st century communication techniques is a team effort and a testament to the hard work of the school's pupils and staff. The school would like to thank everyone who has contributed so far and looks forward to further co-operation and input in the future!*

# Ein Trip i Bendigedig





**Ein Trip i Bendigedig gan Jessica Fletcher**

Ddydd Llun 19 Mehefin, aeth dosbarthiadau 4a5T, 3a4P a 3a4S i'r lle chwarae Bendigedig yn Bermo. Dyma oedd ein trip ysgol eleni. I ddechrau roedd rhaid i bawb gyrraedd yr orsaf drên am......... 8:40am! Ond roedd e'n werth codi'n gynnar. Cymerodd y trip tua awr ac roedd hi'n chwilboeth tu mewn a thu allan hefyd.
Ar ôl cyrraedd Bermo roedd angen cerdded i Bendigedig. Doedd e ddim yn bell i ffwrdd diolch byth!
Yn gyntaf roedd rhaid tynnu esgidiau a'u rhoi mewn bocs ac ar ôl hynny rhedodd pawb fel anifeiliad gwyllt i mewn i'r lle chwarae. Roedd y lle yn fach o'r tu allan ond o'r tu mewn roedd e'n enfawr. Chwaraeon ni wahanol gemau yno ac ar ôl chwarae am amser hir cawsom ni gyd hufen iâ mêl - ar ôl bwyta cinio.
Cyn mynd yn ôl i'r trên cerddom i'r parc ac yna i'r traeth. Roedd y tywod yn boeth iawn. Chwaraeom bêl foli ac enillodd fy nhîm i.
Dw i'n rhoi 100% i'r trip yma achos:
1) roedd hi'n braf;
2) roedd e'n hwyl;
3) roedd popeth yn grêt!

***Our trip to Bendigedig by Jessica Fletcher 4/5T***

*On Monday, 19 June classes 3/4S, 3/4P and 4/5T went on our trip to the play centre Bendigedig in Barmouth. This was our school trip this year. To begin with, we had to be at the train station by .........8.40am! But it was worth getting up early. The train journey took about an hour. It was boiling inside and out.*
*After arriving at Barmouth, we then had to walk to the soft play centre, Bendigedig, thankfully, it wasn't far away!*
*Firstly, we had to take our shoes off and put them in a box. Everyone then ran around like wild animals into the play centre. The place looked small from the inside, but inside it was massive! We played lots of games and after playing we had a honey ice-cream after lunch.*
*Before going back to the train, we walked to the park and then to the beach. It was boiling hot! We played volley ball and my team won.*
*I give this trip 100% because:*
*1 it was sunny;*
*2 it was fun;*
*3 everything was great!*

# Ymweliad P.C. Davies

Ddydd Llun 15 Mai Croesawyd PC Mark Davies i'r ysgol.

*On Monday 15 May, PC Mark Davies visited the school.*




Ddydd Llun 15 Mai Croesawyd PC Mark Davies i'r ysgol. Thema'r gweithdai yn nosbarthiadau'r Adran Iau oedd Ymddygiad Gwrth gymdeithasol. Yn ystod y sesiwn cafwyd cyfle i drafod beth yw ymddygiad gwrthgymdeithasol, a bu'r plant yn rhannu eu syniadau ynglŷn ag achosion ac effaith ymddygiad o'r fath. Cafwyd trafodaeth ddifyr am ddefnydd o gemau anaddas ar-lein a bu PC Davies yn ateb llawer o gwestiynau treiddgar gan y plant am gadw'n ddiogel yn gyffredinol. Diolch yn fawr i PC Davies am gynnal y gweithdai pwysig hyn.

*On Monday 15th May, PC Mark Davies visited the school. The focus of his workshop, in the junior department, was anti-social behaviour. During the session he defined anti-social behaviour and the pupils shared their ideas and understanding about the causes and effects of this kind of behaviour. Interesting questions were also raised during the session about the suitability of some on-line games and PC Davies took the opportunity to remind pupils on how to keep safe on-line. The school wishes to thank PC Mark Davies for providing these important workshops.*

## Gŵyl Cemeg Salters ym Mhrifysgol Aberystwyth

Braf oedd gweld y disgyblion yn mwynhau defnyddio cyfarpar gwyddonol yn y brifysgol yn Aberystwyth. Roedd y Gwyl Salters wedi denu ysgolion o led led Cymru i gystadlu. Fe wnaethant nhw hefyd mwynhau darlith ac arddangosiad o nitrogen hylifol.

*It was great to see the pupils enjoying using the scientific equipment in Aberystwyth University. The Salters Festival attracted schools from all over Wales to compete. They also enjoyed a very interesting lecture and demonstration involving liquid nitrogen.*



Llun/ Picture: Daisy Yiangou, Manon Russell, Gus Canham, Zach Rose.

# Profiad Llysgenhadon Iaith

Ar yr 2ail o Chwefror, mi es i a 5 o bobl eraill o flwyddyn 8 a 9 i brifysgol Abertawe am y diwrnod er mwyn dysgu sut i fod yn llysgennad iaith ar gyfer ein hysgol ni.

*On the 2nd of February me and 5 other people from years 8 and 9 went to Swansea university for the day to learn how to be language ambassadors for our school.*



On the 2nd of February me and five fellow pupils people from years 8 and 9 went on a day trip Swansea University to learn how to be language ambassadors for our school.

We left the school at 6am to catch a bus from Aberystwyth to Swansea with some other schools including Penglais, Aberaeron and Ysgol Emlyn. We arrived at the university at 10am signed in and went to one of the big lecture theatres to be told what we'd be doing that day. Catrin and I attended Global Opportunities first and learnt about what it's like to study a language abroad. Agnes ( a young woman) talked to us about her experiences whilst studying abroad such as taking part in a cultural "Come Dine With Me" with the people she lived with.

After going to Global opportunities, Catrin, Jessica and myself went to a learn Spanish workshop; we played a game where we had to use pictures to guess what Spanish words meant. We came second in the game, mainly because one of the other groups had someone who could speak fluent Spanish!

Then, after lunch, everyone went to a session to try and think of ideas to take back to school. Some of the ideas we came up with were having a "Bake Off" with foods from different countries and doing a sports evening with sports from different countries.

I really enjoyed the experience of being a language ambassador for our school because it made me think about opportunities I may have when I'm older to do with languages.

*Ar yr 2ail o Chwefror, mi es i a 5 o bobl eraill o flwyddyn 8 a 9 i brifysgol Abertawe am y diwrnod er mwyn dysgu sut i fod yn llysgennad iaith ar gyfer ein hysgol ni.*

*Gwnaethom ni adael yr ysgol am 6 o'r gloch yn y bore er mwyn dal bws o Aberystwyth i Abertawe efo ysgolion eraill, yn cynnwys Penglais, Aberaeron ac Ysgol Emlyn. Cyraeddasom y brifysgol am 10 o'r gloch a gwnaethom arwyddo i mewn cyn mynd i un o'r theatrau darlithio i glywed am beth redden ni'n mynd i'w wneud y diwrnod hwnnw. Mi es i a Catrin i gyfleoedd byd eang yn gyntaf a dysgu beth mae o fel i astudio iaith dramor. Dywedodd merch o'r enw Agnes ei bod hi wedi astudio dramor a chafodd hi "come dine with me" rhanbarthol efo'r bobl roedd hi'n byw efo.*

*Ar ôl mynd i gyfleoedd byd eang es i, Catrin a Jessica i ddysgu Sbaeneg a gwnaethom ni chwarae gêm lle'r oedd yn rhaid i ni ddod o hyd i beth roedd gair Sbaeneg yn meddwl tra'n edrych ar wahanol luniau. Daethom ni yn ail yn y gêm, mae hynny oherwydd roedd gan un o'r grwpiau eraill rhywun roedd yn gallu siarad Sbaeneg yn rhugl!*

*Wedyn, ar ôl cinio aeth pawb i drafod am syniadau ar gyfer mynd nôl i ysgol. Rhai o'r syniadau gafon ni oedd cael " bake off" efo bwyd o wledydd gwahanol a chael noson chwaraeon efo gemau o wledydd gwahanol.*

*Wnes i fwynhau'r diwrnod llawer oherwydd wnaeth o wneud i fi meddwl am yr opsiynau sydd gennai pan rwy'n hyn i astudio ieithoedd.*

# Mach Maethlon



Diolch i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am ariannu'r fenter hon

*A huge thank you to the PTA for funding this venture.*



Unwaith eto mae plant Blwyddyn 1 - 5 wedi cael budd mawr o seisynau garddio gyda Mach Maethlon sydd wedi bod yn yr ysgol ar dri dydd Mercher yn ystod tymor yr haf a byddant yn dychwelyd am ddau sesiwn arall ym mis Medi. Maent wedi bod yn gwneud gwaith chwynu a phlanu yn yr ardd lysiau a leolir tu cefn i'r gegin. Mae ffrwyth eu llafur yn dechrau egino ac edrychir ymlaen at wledd o lysiau a ffrwythau erbyn dechrau'r hydref.

Diolch i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am ariannu'r fenter hon.

*Year 1 – 5 pupils have once again benefitted from gardening workshops with Mach Maethlon who have come in to school on 3 Wednesdays during the summer term. We look forward to welcoming them back in September for another 2 sessions. Under their guidance, the children have been weeding and planting in the kitchen garden which is located just behind the canteen. The fruits of their labour has already started to appear and will be ready for harvesting by the beginning of the autumn term.*

*A huge thank you to the PTA for funding this venture.*





# Ymweld â Llyfrgell Genedlaethol Cymru

## Adroddiad gan Oskar Bond ar eu Ymweliad i'r Llyfrgell Genedlaethol Cymru



Ddydd Gwener, y 14eg o Orffennaf, fe aeth blwyddyn naw (nad oedd mor eiddgar a hynny) gamu drwy ddrysau troellog Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Roedd y rhan fwyaf yn cwyno am nad ydynt yn bobl 'llyfrog' (booky). Fodd bynnag, roeddent yn sicr am brofi syndod dymunol....

Pan gyrhaeddon ni, cwrddon ni'n syth â'n tywysydd cyfeillgar. Dangosodd ef fod y llyfrgell hefyd yn gartref i bethau gwerthfawr a phwysig heb law llyfrau. Roedd rhain yn cynnwys ffilmiau, celf a mapiau.

Fy hoff ddarn o'r trip i Lyfrgell Genedlaethol Cymru oedd mynd lawr i'r cromgelloedd (vaults). Mae tua 6.5 miliwn o lyfrau yn y llyfrgell yma, 800,000 o luniau a mwy na miliwn o fapiau. Mae pob llyfr sydd yn cael ei gyhoeddi ym Mhrydain ac Iwerddon yn cael ei ddanfon i'r llyfrgell, ac mae tua 5,000 o lyfrau newydd yn dod i mewn bob wythnos. Ar waelod y llyfrgell, mae'r cromgelloedd lle mae'r pethau hen a gwerthfawr yn cael eu cadw. Does dim taenellwyr (sprinklers) yn y rhain oherwydd fydd dŵr yn malu'r llyfrau gwerthfawr. Felly os oes tân, fydd y drysau yn cau a $CO_2$ yn cael ei bwmpio i mewn i'r ystafell.

Ar ddiwedd ein taith, cawson ni siawns i weld rhai o'r llyfrau mwyaf gwerthfawr yn yr adeilad. Daeth yr arweinydd allan o'r stordy gyda dau lyfr oedd yn perthyn i'r llyfrgell, ac un oedd yn eiddo Prifysgol Caerdydd. Fy hoff lyfr oedd Deddfau Hywel Dda; rhoddodd gipolwg ar fywyd cannoedd o flynyddoedd yn ôl. Hefyd, gwelson ni lyfr Taliesin, a oedd wedi ei ysgrifennu yn hardd iawn gyda phluen ac inc.

Mwynheuais i'r diwrnod llawer mwy na'r disgwyl, ac rwyf eisiau dweud diolch i bawb wnaeth chwarae eu rhan i drefnu'r trip anhygoel yma.

Gan Oskar Bond

# Drama Bl. 6 2017 / Year 6 Drama 2017





Yn ystod yr wythnos drosglwyddo, cafwyd gweithdai Drama oedd yn ymdrin â'r thema o ANNHEGWCH. Dyma rhai o'r delweddau a grewyd. A welwch chi hanes Rosa Parks yno? A welwch hanes ffoaduriaid yn boddi wrth ymyl y lan?

*In Transition Week there were Drama workshops on the theme of UNFAIRNESS. Here are some of the tableaus created. Can you see Rosa Parks, or the story of refugees drowning while dreaming new life?*







Trip sgio i Awstria 2017



Mabolgampau Campws Cynradd